# EICH PENDERFYNIADAU CHI

## -EIN BYWYD NI, EIN HAWLIAU NI, EIN LLAIS NI!

ADRODDIAD GAN BLANT GOGLEDD IWERDDON, YR ALBAN A CHYMRU I BWYLLGOR Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

TACHWEDD 2022



NICCY
PROMOTING THE RIGHTS OF CHILDREN & YOUNG PEOPLE

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Cynnwys** **Tudalen**


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Mesurau gweithredu cyffredinol | 7 |
| Egwyddorion cyffredinol | 13 |
| Hawliau sifil a mathau o ryddid | 18 |
| Trais yn erbyn plant | 21 |
| Amgylchedd y teulu a gofal amgen | 31 |
| Anabledd, iechyd sylfaenol a lles | 39 |
| Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol | 57 |
| Mesurau amddiffyniad arbennig | 73 |
| Atodiad 1: Trosolwg o'r ymgysylltu | 81 |

## 1. Cyflwyniad

Bu Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn adolygu cynnydd y Deyrnas Unedig ddiwethaf yn 2016, a bydd yn gwneud yr un peth eto yn 2023. Mae'r adroddiad hwn, o dair awdurdodaeth yn y Deyrnas Unedig – Gogledd Iwerddon, yr Alban, a Chymru – yn dilyn Ymateb Gwladwriaeth y Deyrnas Unedig (a adwaenir o hyn allan yma fel 'Adroddiad y Wladwriaeth') i Restr Pwyllgor y CU o Faterion ynghylch Hawliau'r Plentyn. Gosodir hanesion y plant a'r bobl ifanc a'u profiadau yn erbyn y ffaith eu bod yn ddiweddar wedi wynebu nifer o flynyddoedd o ansicrwydd cymdeithasol, addysgol, gwleidyddol ac economaidd, gan gynnwys effaith Covid-19 ac effaith barhaus yr argyfwng costau byw presennol. Nid yw crynswth, y broses o'u cwblhau ac effaith hirdymor yr argyfyngau hyn yn hysbys eto, ond yn y cyfamser, mae plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cael trafferth cynnal eu hiechyd, cynnal eu safon byw, a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Seiliwyd yr adroddiad hwn ar ymgysylltiad Staff Cyfranogiad â phlant a phobl ifanc yn nhair o swyddfeydd Comisiynwyr Plant y Deyrnas Unedig:

- Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon (NICCY)
- Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban (CYPCS)
- Comisiynydd Plant Cymru (CPC).

Sefydliadau Hawliau Plant Annibynnol yw'r Comisiynwyr, y mae eu cylchoedd gorchwyl unigol yn eu tro yn cwmpasu Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Mae eu swyddogaethau statudol yn wahanol, ond mae pob un ohonynt yn troi o gwmpas hybu a diogelu hawliau plant, gan roi sylw arbennig i CCUHP a chael eu llywio gan farn a phrofiadau plant. O fewn yr adroddiad hwn, mae lleisiau'r plant a'r bobl ifanc yn gwneud sylwadau ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn eu hawdurdodaethau eu hunain yn unig, hynny yw Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Yn unol â'r ddeddfwriaeth a sefydlodd Gomisiynydd Plant Cymru, mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ar y materion hyn.

Nod yr adroddiad yw cyflwyno barn a phrofiadau plant a phobl ifanc i'r Pwyllgor ynghylch cyflawni eu hawliau o ddydd i ddydd. Bydd y tri Chomisiynydd hwythau yn cyflwyno adroddiad ar wahân, yn asesu sut mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gwneud cynnydd o ran rhoi i bob plentyn y cyfleoedd a'r amddiffyniadau a grisialir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw a throstyn nhw, yn dal i wynebu llawer o heriau a rhwystrau wrth gyflawni a gwireddu eu hawliau.

Fodd bynnag, y mae elfennau cadarnhaol ym mhob un o'r awdurdodaethau, ac amlygir enghreifftiau o'r rheiny isod:

**Gogledd Iwerddon (NI)**
Cydnabyddir enghreifftiau cadarnhaol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys, er enghraifft, ddulliau wedi'u teilwra o gyfathrebu â phobl ifanc, gan ddefnyddio sianeli cymdeithasol fel Snapchat, TikTok, a storïau Insta, yn ogystal â defnyddio dylanwadwyr i helpu i gyfleu negeseuon allweddol.

Mae sefydlu Cynulliad Ieuenctid Gogledd Iwerddon gan Gomisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon yn gam amlwg ymlaen. Nid oes pleidlais gan Bobl Ifanc o dan 18 oed, felly mae'n bwysig bod eu Cynulliad yn cael hyd i ffyrdd amgen o glywed eu barn ar y materion sy'n bwysig iddyn nhw, a bod gan bobl ifanc lwybr i'w ddilyn i herio'r llywodraeth a'r gwaith maen nhw'n ei wneud. Mae llais a phrofiadau plant a phobl ifanc yn hanfodol os yw unrhyw gorff deddfwriaethol i wneud penderfyniadau da.

Mae Strategaeth Plant a Phobl Ifanc 2020-30[1] a'i Chynllun Cyflawni (drafft)[2] yn amlinellu "Ffurfio a gweithredu Rhwydwaith Cyfranogiad cynhwysol er mwyn grymuso a chefnogi plant a phobl ifanc i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau", gan ategu'r ymrwymiad a amlinellwyd ym menter 'Cyfranogiad mewn Penderfyniadau' yr Adran Addysg. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes amserlen benodol ar gyfer cyflawni hyn.

Mae'r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc hefyd yn amlygu'r angen am ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfranogi yn eu haddysg am faterion sy'n effeithio arnyn nhw, er enghraifft trwy gynghorau ysgol neu fathau eraill o gyfranogiad gan fyfyrwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Cyflwynodd yr Adran Addysg Fframwaith Iechyd a Llesiant Emosiynol Plant a Phobl Ifanc mewn Addysg, sy'n gam cadarnhaol ymlaen o ran cefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Gwaetha'r modd, gan nad oes rhaid i ysgolion ei gyflawni, nid yw'n cael ei gyflwyno i'r myfyrwyr mewn modd cyson. Mae'r Adran Addysg wedi dechrau'n dda o ran y Fframwaith, ond gwaetha'r modd, ni all fynnu sut mae ysgolion yn ei ddefnyddio. Mae angen hefyd i Arolygwyr Addysg asesu'r broses o gwblhau'r Fframwaith.

**Yr Alban**
Wedi degawdau o ymgyrchu, cyflwynwyd yr *UNCRC (Incorporation) (Scotland) Bill* i Senedd yr Alban ym mis Medi 2020 a'i basio'n unfrydol ar 16 Mawrth 2021. Arweiniodd

[1] final-executive-children-and-young-people's-strategy-2020-2030 (education-ni.gov.uk)
[2] https://consultations.nidirect.gov.uk/de/children-and-young-people-s-strategy-initial-3-yea/

plant a phobl ifanc y galwadau i hyn ddigwydd. Yn fuan wedyn, heriodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig rannau penodol o'r Bil yng Ngoruchel Lys y Deyrnas Unedig, gan ddweud eu bod y tu hwnt i alluoedd deddfwriaethol Senedd yr Alban. Ar 6 Hydref 2021, cyhoeddodd y Goruchel Lys eu dyfarniad, oedd yn penderfynu bod pedair adran o'r Bil yn mynd y tu hwnt i bwerau Senedd yr Alban. Hyd nes y gwneir newidiadau i'r adrannau hynny, ni all y Bil ddod yn gyfraith – sy'n golygu na fydd hawliau CCUHP plant yn cael eu diogelu'n llawn yng ngyfraith gwlad.

Dros flwyddyn wedi'r dyfarniad, mae Llywodraeth yr Alban yn dal heb roi sylw i'r adrannau hynny o'r Bil, er ei bod wedi dweud eto ei bod yn ymrwymo i wneud hynny.

Oherwydd y pandemig, mae pobl ifanc yn yr Alban yn awr wedi wynebu amharu ar arholiadau ac asesiadau SQA cenedlaethol ers 2020. Ar hyd y cyfnod hwnnw, bu effaith ddifrifol ar eu hawl i dderbyn addysg. Eleni, bu pobl ifanc yn parhau i fyw gydag ansicrwydd aruthrol. Mae diwygio arholiadau ac addysg yn flaenoriaeth, ac mae Llywodraeth yr Alban yn cefnogi Trafodaeth Genedlaethol[3] ar ddyfodol addysg er mwyn clywed barn plant ar draws yr Alban. Er ei bod yn dal heb ymgynnull, mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ymrwymo i sefydlu Cyngor Addysg Plant a Phobl Ifanc a fydd yn cyfranogi mewn trafodaethau strategol ar ddiwygio addysg.

Mae iechyd meddwl yn dal yn fater blaenoriaeth i blant a phobl ifanc yn yr Alban, gyda diffyg mynediad at wasanaethau a rhestrau aros hir yn broblem ddifrifol i'r rhai sy'n ceisio help. Er bod argaeledd cwnselwyr ysgol wedi gwella, mae cefnogaeth ehangach yn y gymuned yn dal yn annigonol.

Mae dros chwarter plant yr Alban yn byw mewn tlodi. Mae Llywodraeth yr Alban wedi datblygu ei Chynllun Cyflawni ar gyfer Taclo Tlodi Plant 2022-2026, yn ogystal â rhoi rhai mesurau cynnal ychwanegol yn eu lle o ran nawdd cymdeithasol, ond bydd angen bod yn uchelgeisiol a symud yn gynt i gyrraedd ei thargedau.

Mae Llywodraeth yr Alban yn cynnal cyfarfodydd cabinet blynyddol gyda phlant a phobl ifanc ac yn cyhoeddi ystod o ymrwymiadau cyfranogiad. Cynhaliwyd saith cyfarfod blynyddol hyd yma.

**Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi arddangos peth cynnydd da, gan ddarparu tystiolaeth o ymgysylltu cadarnhaol â phlant a phobl ifanc trwy ymarfer cyfranogol wrth lunio polisi, ac ymrwymiad i gefnogi ymgysylltiad effeithiol trwy ariannu.

---

[3] https://consult.gov.scot/national-discussion-scottish-education/

Estynnwyd hawliau pleidleisio pobl ifanc 16 ac 17 oed, gan roi'r hawl iddyn nhw bleidleisio yn etholiadau'r Senedd yn 2021, ac mewn etholiadau Llywodraeth Leol a Chynghorau Cymuned o 2022 ymlaen.[4]

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol i Gymru, a gynhyrchwyd ar y cyd â chymunedau ethnig lleiafrifol (2022), sy'n cymryd camau i sicrhau bod yr anghydraddoldeb mae'r cymunedau hyn yn ei wynebu yn cael ei leihau. Mae materion hiliaeth, bwlio a chamwahaniaethu mewn ysgolion yn dal i gael effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i fynd i'r afael ag effaith tlodi trwy fuddsoddi yn y Rhaglen Ysgolion â Ffocws Cymunedol[5], ac estyn prydau ysgol am ddim i holl fyfyrwyr ysgolion cynradd ledled Cymru[6]. Ar ben hynny, neilltuodd Llywodreth Cymru adnoddau ar gyfer Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol, gan gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ledled Cymru ymgysylltu.

Mewn ymateb i'r pandemig, datblygwyd yr ymgyngoriadau 'Coronafeirws a Fi' mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru a Senedd Ieuenctid Cymru.[7] Ymgysylltwyd â rhyw 44,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru, ac roedd y canfyddiadau'n cynnig mewnwelediad a dealltwriaeth o farn a phrofiadau plant ar hyd y pandemig, gan helpu i ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau.

Cyflwynwyd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn 2022, sy'n cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) orfodol ac yn gosod dyletswydd ar arweinwyr addysg i hybu ymwybyddiaeth o CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA).

**Trosolwg Ymgysylltu**

Gwnaeth y Timau Cyfranogiad bob ymdrech i glywed a gwrando ar lais pobl ifanc, weithiau trwy weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc ac weithiau trwy weithio mewn partneriaeth â chyrff anllywodraethol (NGOs) rhanbarthol/lleol – yn arbennig y rhai sy'n gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc agored i niwed. Ar brydiau, bu Timau Cyfranogiad yn cydweithio ag NGOs i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc; bu rhai asiantaethau'n hwyluso sgwrs ar ran y Comisiynwyr; bu eraill yn gwahodd staff y Comisiwn i'w cyfarfodydd. Roedd

[4] https://senedd.wales/visit/education-and-youth-engagement/vote-16/
[5] https://gov.wales/25m-investment-community-focused-schools-tackle-impact-poverty
[6] https://gov.wales/25m-kick-start-free-school-meals-all-primary-school-children-wales
[7] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_EN.pdf

hyn yn cynnwys arolygon, ymgysylltu rhithwir ac uniongyrchol â grwpiau ieuenctid, sefydliadau ieuenctid, ysgolion a chartrefi plant.

**Methodoleg Ymgysylltu**
Roedd pob swyddfa yn gyfrifol am eu hymgysylltu eu hunain, er bod cyswllt rheolaidd a pharhaus ymhlith a rhwng swyddfeydd yn darparu cefnogaeth ychwanegol.

Bu staff yn hwyluso trafodaethau wyneb yn wyneb neu ar-lein gyda phlant a phobl ifanc, a lle nad oedd modd gwneud hynny, bu asiantaethau partner yn hwyluso ar ran y Comisiynwyr. Lle nad oedd hynny'n bosib, cafwyd hyd i ymgyngoriadau, adroddiadau a chyhoeddiadau diweddar i lenwi bylchau a nodwyd yn yr wybodaeth. Roedd rhai o'r ffynonellau hyn yn deillio o swyddfeydd y Comisiynwyr, ac eraill yn dod o NGOs rhanbarthol a chenedlaethol a ffynonellau academaidd.

Mae **Atodiad 1** yn rhoi trosolwg ychwanegol o ymgysylltiad pob awdurdodaeth â phlant a phobl ifanc. Cyfeiriwyd hefyd at wybodaeth ategol o adroddiadau a ffynonellau eraill ar hyd yr adroddiad.

## 2. Mesurau gweithredu cyffredinol

**Ymgorffori CCUHP**
Mae Adroddiad y Wladwriaeth yn dweud ei bod yn ymroddedig i hybu hawliau plant ym mhob agwedd ar gymdeithas, a sicrhau bod y Confensiwn yn cael ei adlewyrchu mewn deddfwriaeth ddomestig. Mae awdurdodau pob un o'r awdurdodaethau yn dweud y rhoddir ystyriaeth ofalus wrth ddatblygu deddfwriaeth, strategaethau, polisïau a gwasanaethau newydd.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Alban wrthi ar hyn o bryd yn ymgorffori Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yng nghyfraith gwlad. Yn 2021, pasiodd Senedd yr Alban yn unfrydol fil i ymgorffori'r Confensiwn yn llawn yng nghyfraith yr Alban. Ers hynny, mae'r Bil wedi cael ei herio'n gyfreithiol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac yn dilyn dyfarniad y Goruchel Lys, rhaid i'r Bil ddychwelyd at Senedd yr Alban gyda newidiadau. Mae'r newidiadau'n ymwneud yn bennaf â chymhwyso amddiffyniadau hawliau i gamau gweithredu Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn yr Alban, gan fod y Goruchel Lys wedi dyfarnu bod hynny y tu allan i bwerau Senedd yr Alban.

Ar hyn o bryd nid yw ymgorffori CCUHP yn rhan o agenda'r llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon, er bod Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi mabwysiadu'r Strategaeth Plant

a Phobl Ifanc (2020), sy'n hybu llesiant plant ac yn symud hawliau plant ymlaen hyd at 2030.[8]

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno eu hymrwymiad i egwyddorion ymgorffori llawn, a'u cynllun yw archwilio hyn ymhellach, er bod angen gwneud mwy o waith i wireddu hynny.[9]

Fodd bynnag, mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthyn ni fod angen gwneud mwy i esbonio beth mae ymgorffori yn ei olygu'n ymarferol.

> ***"Beth fydd ymgorffori yn ei olygu i fi yn fy mywyd bob dydd? Rydw i'n deall rhai pethau am hawliau, ond sut bydd fy mywyd yn well, neu'n wahanol mewn unrhyw ffordd?"***

Gwryw Ifanc, yr Alban

Yn gadarnhaol, bu prosiect peilot gydag 14 o blant o chwe sefydliad gwahanol, Rights Right Now!, yn gweithio i ddylanwadu ar Raglen Weithredu Llywodraeth yr Alban ar gyfer CCUHP, a gwaith ei Fwrdd Gweithredu Strategol. Bydd argymhellion y prosiect hwn yn helpu i gryfhau capasiti'r Bwrdd Gweithredu Strategol i gynnwys plant a phobl ifanc sydd ag ystod eang o brofiadau a chefndiroedd.

> ***"Roedd pawb yn gefnogol – fe wnaeth pawb wrando – siaradodd neb dros neb arall, a chafodd barn pawb ohonon ni ei chlywed. Doeddech chi ddim yn teimlo'n euog achos doeddech chi ddim yn anghofio beth roeddech chi eisiau dweud, achos doedd neb yn neidio mewn."***

Person Ifanc, Rights Right Now!, Yr Alban

Dylid nodi fodd bynnag, bron 25 mlynedd wedi cytundeb Gwener y Groglith, fod Gogledd Iwerddon yn dal heb Fil Hawliau.

> ***"Sut mae'n bosib bod gan rai gwledydd lywodraethau o hyd sy'n cynnwys oedolion sy'n anwybyddu lles pennaf plant wrth wneud cyfreithiau a phenderfyniadau? Pa obaith sydd ganddyn nhw ar gyfer dyfodol eu***

---

8 final-executive-children-and-young-people's-strategy-2020-2030

9 https://business.senedd.wales/documents/s126976/Letter%20from%20the%20Minister%20for%20Social%20Justice%20-%20Powers%20of%20the%20Childrens%20Commissioner%20for%20Wales%20-%2026%20M.pdf

***gwlad, dyfodol ein planed, dyfodol y ddynoliaeth, os byddan nhw'n ceisio anwybyddu anghenion a dymuniadau'r plant sydd yn eu gofal?***

Person Ifanc, Arolwg 'Young Life and Times' (YLTS), Gogledd Iwerddon[10]

Mae pobl ifanc hefyd yn ymwybodol o effaith ymgorfforri CCUHP ar ddarpariaeth iechyd meddwl:

***"…ond i ddisgyblion ar ôl y cynradd yn unig mae'r Adran Addysg (yng Ngogledd Iwerddon) yn darparu cwnsela yn yr ysgol.[11] Mae hynny'n golygu bod plant iau yn ein hysgol sydd â phroblemau fel salwch, anabledd neu farwolaeth yn eu teulu heb neb i siarad â nhw. All hynny ddim bod yn iawn. Tase CCUHP yn gyfraith, falle byddai pawb yn cael hyn."***

Gwryw Ifanc, Gogledd Iwerddon[12]

**Ymwybyddiaeth o CCUHP**

Yn yr Alban, mae CYPCS wedi galw am fuddsoddi yn natblygiad adnoddau CCUHP newydd. Datblygiad cadarnhaol oedd bod Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi cyllid ym mis Mai 2022 i UNICEF UK gynnig eu rhaglen RRSA i holl ysgolion cynradd ac uwchradd y wladwriaeth yn yr Alban, fel bod plant yn yr Alban yn gwybod am eu hawliau.

Mae'r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc yng Ngogledd Iwerddon wedi amlygu Erthygl 4 o CCUHP, sy'n gofyn bod y Llywodraeth yn cymryd pob cam deddfwriaethol, gweinyddol ac arall priodol i roi hawliau plant ar waith, ac mae'n nodi mai'r Strategaeth yw cynllun Gogledd Iwerddon ar gyfer cyflwyno gwell llesiant i blant a phobl ifanc, a'i bod wedi'i gwreiddio yn CCUHP.[13] Er nad yw'n orfodol ar hyn o bryd, adlewyrchir hawliau plant a phobl ifanc yng nghwricwlwm ysgol Gogledd Iwerddon ar hyd Cyfnodau Allweddol 1-4.

***"Mae hawliau yn eich codi er mwyn i chi fod y gorau gallwch chi fod"***

Gwryw Ifanc, MENCAP, Gogledd Iwerddon

---

[10] https://www.ark.ac.uk/ylt/results/yltcovid.html
[11] Lansiwyd Peilot Gwasanaeth Therapiwtig a Chwnsela 'Healthy Happy Minds' i Ysgolion Cynradd gan y Gweinidog Addysg ym mis Tachwedd 2021. Nid yw wedi'i brif-ffrydio eto.
[12] Uwch-gynhadledd Plant a Phobl Ifanc, NICCY
[13] final-execuitve-children-and-young-people's-strategy-2020-2030, tudalennau 9 a 10

Fel rhan o'u cyflwyniad i'r Adolygiad Annibynnol o Addysg yng Ngogledd Iwerddon, bu Panel Ieuenctid Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon yn cydnabod pwysigrwydd rôl CCUHP ym mywydau plant.

***"Mae'n anodd i ni wadu bod addysg yn offeryn allweddol y gallwn ni ei ddefnyddio i lunio'n cymdeithas yn ôl nodau a bwriadau gwreiddiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – cymdeithas lle na cheir tlodi na chamwahaniaethu, a lle gall pob plentyn fyw'n ddiogel ac yn hapus gan gyflawni eu potensial llawn, heb ddioddef yn sgîl amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth."***

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY[14]

Fel rhan o'r cwricwlwm newydd i Gymru (2022) bydd gofyn bod plant, staff a llywodraethwyr yn dysgu am CCUHP.

Fodd bynnag, mae angen cymhwyso CCUHP yn fwy cyffredinol, y tu hwnt i ysgolion ac yn y gymdeithas ehangach. Dylid darparu hyfforddiant i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, neu y mae eu gwaith yn effeithio ar blant a phobl ifanc, i gynyddu eu dealltwriaeth o hawliau plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u rôl, a'u cyfrifoldeb fel rhai sydd â dyletswydd i ddeiliaid hawliau.

Mae plant a phobl ifanc wedi amlygu bod angen ystyriaeth bellach i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diogelu ar draws pob maes.

***"Yn fy mhrofiad i, gallwch chi gael eich ecsbloetio'n hawdd, yn enwedig mewn gweithle – rwy'n cael bod y bos lle rydw i'n gweithio yn siarad yn wahanol â'r oedolion sy'n gweithio iddo fe o gymharu â'r staff ifanc fel fi, oes gynnon ni unrhyw hawliau yn y gweithle?"***

Aelod o'r Panel Ymgynghorol Ieuenctid, Cymru

**Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)**

Gall CRIAs gefnogi llywodraethau i ddiogelu a hybu hawliau plant. Gallan nhw helpu plant i gael llais, ac mae eu defnyddio o gymorth mawr i blant agored i niwed mewn ardaloedd difreintiedig. Mae pob awdurdodaeth wedi defnyddio CRIAs, er nad yw'r rhain yn orfodol (ac eithrio yn yr Alban lle maen nhw o dan rai amgylchiadau).

---

[14] https://www.niccy.org/media/4139/niccy-youth-panel-review-of-education-report.pdf

Mae CRIAs a Gwerthusiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIEs) yn allweddol i gynnal hawliau plant. Mae cynnwys plant mewn CRIAs a CRIEs yn cynyddu'r posibilrwydd y bydd eu persbectif, eu syniadau a'u profiadau pob dydd yn llywio datblygiad polisi a phenderfyniadau. Mae bylchau'n parhau o ran gwybod a deall sut mae gwneud plant yn rhan o'r broses, a'r cyfleoedd i blant leisio barn ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar lefel y gymuned a'r awdurdod lleol yn yr Alban.

I gefnogi awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban, bu CYPCS, mewn partneriaeth â Senedd y Plant a Together (Cynghrair Hawliau Plant yn yr Alban) ac Arsyllfa Hawliau Dynol Plant yn yr Alban, yn cynnal astudiaeth achos yng Nghyngor East Lothian, er mwyn datblygu dealltwriaeth o sut gall plant fod yn rhan o brosesau CRIA a CRIE, ac arfer da yn hynny o beth.[15]

Ychydig iawn o'r 100 o blant a fu'n rhan o'r astudiaeth achos oedd yn gallu nodi enghreifftiau o gael eu holi am eu barn, eu profiadau a'u syniadau. Gyda hynny'n gefnlen, mae'n anoddach cynnwys plant mewn prosesau CRIA oherwydd y diffyg ymgysylltu presennol ar lefel yr ysgol, y gymuned a/neu'r awdurdod lleol.

> **_"Unwaith y flwyddyn rydyn ni'n cael arolwg yn yr ysgol yn gofyn sut rydyn ni'n teithio i'r ysgol. Dydyn ni byth yn clywed y canlyniadau na beth sy'n digwydd wedyn."_**

Benyw Ifanc, Aelod o Senedd y Plant, yr Alban

Dywedodd plant a phobl ifanc y dylai llunwyr penderfyniadau ymgysylltu â phlant fel mater o drefn wrth greu CRIAs (a phrosesau llunio penderfyniadau yn fwy cyffredinol) fel bod modd i lunwyr penderfyniadau ddeall ac atal effeithiau negyddol posibl ar hawliau plant a manteisio ar y cyfle i symud hawliau plant ymlaen yn rhagweithiol.

> **_"Rydw i'n credu bod hyn yn ffordd dda o wella hawliau plant ac yn golygu bod ein llais yn gallu cael ei glywed."_**

Gwryw Ifanc, Aelod o Senedd y Plant, yr Alban

[15] https://www.cypcs.org.uk/wpcypcs/wp-content/uploads/2022/09/CYP-Commissioner-CRIA-and-CRIE-Guide-FINAL.pdf

Mae llawer o blant yn frwd ac yn awyddus i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud, ac yn teimlo'n gryf y bydd eu buddiannau'n cael eu cynrychioli'n well yn eu bywyd beunyddiol trwy eu cynnwys.

*Byddwn i'n hoffi i bobl fuddsoddi mewn sicrhau bod plant yn cael bywyd hapus.*

Person Ifanc, Ymchwilydd Senedd y Plant, yr Alban

Mae Llywodraeth Cymru wedi arddangos ymrwymiad i CCUHP trwy gynllun Hawliau Plant diwygiedig 2021, sy'n cynnwys templedi CRIA a chanllawiau i swyddogion ar y defnydd o CRIAs. Mae rhai arwyddion bod hyn yn arwain at ddefnydd a chyhoeddi mwy cyson yn achos CRIAs, ond mae rhai anghysondebau i'w gweld o hyd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu cynllun Plant a Phobl Ifanc, yn cyflwyno eu blaenoriaethau ar gyfer hybu hawliau plant.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae NICCY, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, wedi datblygu modiwlau hyfforddi Hawliau Plant a CRIA ar-lein i staff yn adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau cyhoeddus cysylltiedig sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, neu y mae eu gwaith yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

*Dylai asesiadau effaith ar hawliau plant fod yn cael eu cynnal eisoes cyn cychwyn ymgynghori. Dylai'r Llywodraeth wybod 100% sut mae amddiffyn plant ac atal eu hawliau rhag cael eu gwthio o'r neilltu.*

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

Hefyd, teimlai pobl ifanc y byddai addysgu plant a phobl ifanc eraill ynghylch CRIAs yn fuddiol.

*Mae defnyddio CRIAs i blant eu hunain yn offeryn da iawn, gan ei fod yn cychwyn sgyrsiau am eu hawliau ac yn eu helpu i feddwl trwy eu safbwyntiau eu hunain a datblygu eu syniadau ynghylch y mater dan sylw.*

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

Mae adroddiad Gwladwriaeth y Deyrnas Unedig yn amlygu bod yr Alban a Chymru wedi

cynnal CRIAs ar fesurau deddfwriaethol yn ystod y pandemig, i sicrhau bod polisïau'n ystyried hawliau plant. Nid oes cyfeiriad at CRIAs yn cael eu cynnal yng Ngogledd Iwerddon at yr un diben.

Yn ystod COVID, bu rhai pobl ifanc yn beirniadu'r diffyg rhagweld o ran yr effaith byddai camau gweithredu'r llywodraeth yn ei chael ar ymgysylltiad plant a phobl ifanc.

***Dylen nhw wrando mwy ar bobl ifanc a chymryd eu hanghenion i ystyriaeth llawn cymaint ag maen nhw'n gwneud gydag oedolion. Dyw'r ffaith ein bod ni'n ifancach ddim yn golygu ein bod ni ddim mor bwysig... roeddwn i'n teimlo yn ystod y pandemig ein bod ni bobl ifanc bron yn cael ein beio am y ffaith bod y feirws yn ymledu, er bod mwyafrif llethol ohonon ni'n gwneud popeth allen ni i amddiffyn y genhedlaeth hŷn, ond yn lle gwrando arnon ni a gweld ein bod ni'n treio helpu, fe wnaeth y llywodraeth adael i'r lleiafrif gynrychioli'r mwyafrif. Byddwn i'n hoffi i'r llywodraeth wrando mwy arnon ni a'n cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig ar bethau sy'n effeithio arnon ni, fel addysg.***

Person Ifanc, YLTS, Gogledd Iwerddon

***Nid ein bai ni yw e bod rhai ohonon ni a'n ffrindiau wedi dal COVID. Roedd rhaid i ni fynd i'r ysgol a defnyddio trafnidiaeth, felly roedd yn siŵr o ddigwydd. Dylse pobl dreio gofalu amdanon ni, yn lle beio ni.***

Person Ifanc, YLTS, Gogledd Iwerddon

## 3. Egwyddorion Cyffredinol

**Peidio â chamwahaniaethu**

Yn eu hadroddiad, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dweud eu bod yn gwneud gwaith sylweddol i ddileu gwahaniaethu yn erbyn pob plentyn, gan gynnwys rhoi sylw i fwlio homoffobig, deuffobig, a thrawsffobig, gyda'r nod o leiafu'r anghydraddoldeb mae'r rhai sydd â nodweddion penodol gwarchodedig yn eu profi. Mae'r adroddiad yn datgan eu bod hefyd yn ymroddedig i ddileu gwahaniaethu ar sail oedran ac ymdrin ag agweddau negyddol at blant ymhlith y cyhoedd, gan ddeddfu yn ôl y galw. Fodd bynnag, nid yw profiadau plant a phobl ifanc ar lawr gwlad yn adlewyrchu'r uchelgeisiau hyn eto.

Ym marn pobl ifanc gallai ysgolion a'r gymdeithas ehangach fod yn fwy cefnogol a chynhwysol o safbwynt LHDTCRh+.

***"Rydw i'n LHDTC, a dwy ddim yn teimlo mod i'n cael fy nerbyn." Rwy'n credu gallai ysgolion wneud mwy i ymgorffori hyn mewn addysg. Dydw i ddim yn siŵr pwy dylwn i siarad â nhw pan fydd gen i broblem.***

Person Ifanc, Yr Alban

***"Does dim digon yn cael ei wneud i gael hyd i atebion i faterion LHDTCRh+… Mae angen mwy o gefnogaeth i rieni a theuluoedd pobl ifanc LHDTRh+. Mae angen i ni addysgu darparwyr gwasanaeth, ysgolion, etc. yn well ynghylch materion LHDTRh+ a'r anawsterau mae pobl ifanc yn eu hwynebu."***

Person Ifanc, Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon, Gogledd Iwerddon

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol i Gymru, a gynhyrchwyd ar y cyd â chymunedau ethnig lleiafrifol (2022), gan gymryd camau i sicrhau bod yr anghydraddoldeb mae'r cymunedau hyn yn ei brofi yn cael ei leihau.[16] Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynllun gweithredu LHDTC+ yn 2021, gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chamwahaniaethu, ond nid yw'r deilliannau a'r camau gweithredu wedi'u cyhoeddi eto. Er gwaethaf y datblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin ag anghydraddoldeb yng Nghymru, mae barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn amlygu angen am ffocws parhaus ar y maes hwn, i leihau camwahaniaethu, gan hybu a diogelu hawliau pob plentyn a pherson ifanc.

***"Cydblethu cydraddoldeb a thegwch i sicrhau bod gan bob person ifanc yr hyn mae arnyn nhw ei angen i gyflawni eu potensial."***

Aelod o Banel Ymgynghorol Ieuenctid CPC, Cymru

Amlygodd pobl ifanc sy'n deithwyr hefyd agweddau oedd yn gwahaniaethu yn eu herbyn yn y system addysg.

***"Rydyn ni'n cael ein barnu yn ôl beth mae Teithwyr eraill yn gwneud."***

---

[16] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/anti-racist-wales-action-plan_0.pdf

***Yn yr ysgol mae athrawon yn dweud pethau fel, 'Beth wyt ti'n gwneud yma, y cyfan byddi di'n gwneud yw priodi', 'rwyt ti'n mynd i fethu TGAU' a 'Dyw pobl fel ti ddim wir yn mynd i'r ysgol, felly pam rwyt ti yma?'***

Person Ifanc sy'n Deithiwr, Gogledd Iwerddon[17]

Ymrwymodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n gwella deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail oedran er mwyn cwmpasu darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Bu'r ddeddfwriaeth hon, yn y ffurf a gynigiwyd gan y Llywodraeth, yn destun ymgynghori cyhoeddus yn hydref 2015, ond roedd yn cynnwys cynigion a fyddai'n eithrio pobl ifanc o dan 16 oed, er bod pobl ifanc wedi galw'n uchel am gynnwys pob plentyn a pherson ifanc.

***Trwy beidio â chynnwys pobl ifanc o dan 16 yn y ddeddfwriaeth, mae'r Panel Ieuenctid o'r farn bod hyn yn atgyfnerthu stereoteipiau negyddol ynghylch y grŵp yma ac yn anfon neges i gymdeithas bod rhai o dan 16 oed yn llai teilwng i gael eu hamddiffyn, a bod gwahaniaethu yn erbyn plant o dan 16 oed ar sail eu hoed, heb gyfiawnhad, yn dderbyniol.***

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

Er bod ymrwymiad blaenoriaeth wedi cael ei nodi fel rhan o'r *New Decade, New Approach Deal* (2020)[18] i gyflwyno Bil Oedran, Nwyddau a Chyfleusterau a Gwasanaethau, gyda'r nod o '*sicrhau na wahaniaethir yn erbyn neb oherwydd eu hoed'*, mae hynny'n dal heb symud ymlaen.

**Parch at farn y plentyn**

Mae Adroddiad y Wladwriaeth yn dweud bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i alluogi cyfranogiad ystyrlon mewn penderfyniadau ar bob lefel. Er bod camau cadarnhaol wedi symud ymlaen ers adroddiad diwethaf y CU (gweler y Cyflwyniad), canfyddiad plant a phobl ifanc yw nad yw'r ymrwymiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn eu hymgysylltiad â llunwyr penderfyniadau.

Roedd hyn yn amlwg iawn ar hyd y pandemig, lle roedd plant a phobl ifanc yn absennol o'r broses o lunio penderfyniadau i raddau helaeth, yn arbennig yn achos penderfyniadau addysg a iechyd.

[17] Plan International (2020) 'Gypsy and Traveller girls,' The State of Girls' Rights in the UK,
[18] New Decade New Approach, 2020, tud. 41

***Dyw e'n ddim byd i wneud â ni hebddon ni. Dydyn nhw ddim yn dweud unrhyw beth wrthyn ni, a dydyn ni ddim yn cael cais i fod yn rhan o'r sgwrs. Sut mae hynny'n parchu ein hawliau dynol? Os nad ydyn ni o leiaf yn dod yn rhan o'r sgwrs, hyd yn oed os y penderfyniad yw 'dydyn ni ddim yn meddwl ein bod ni'n mynd i ganslo'r arholiadau', o leia gwnewch ni'n rhan ohono fe, yn hytrach na bod y cyfan yn digwydd allan o'r golwg.***

Ymgynghorydd Ifanc CYPCS, yr Alban

***" Roeddwn i'n teimlo bod popeth i wneud â Covid yn achosi straen aruthrol achos doedden nhw ddim yn esbonio fe'n iawn, ac roeddwn i wedi drysu drwy'r amser. Maen nhw'n newid y rheolau o hyd, ac mae'n anodd cadw lan da'r rheolau a phethau. "***

Person Ifanc, MENCAP, Gogledd Iwerddon

***" Doedden ni ddim wir yn ymwybodol o'r canllawiau na pham roedden nhw yn eu lle. Y cyfan ddwedson nhw wrthyn ni oedd ein bod ni ddim i fynd allan. Doedd dim gwybodaeth ar gael i ni, a dim ffordd i ni ddweud ein barn wrth bobl bwysig. "***

Person Ifanc, YLTS, Gogledd Iwerddon

***" Does dim digon i esbonio pam gwnaethon nhw'r pethau yna, mae'r byd cyfan mewn pandemig a dyma nhw (y llywodraeth) yn trefnu cynllun "eat out to help out". Does dim ohono fe'n gwneud synnwyr! Doedd y canllawiau ddim yn cynnwys unrhyw beth am iechyd meddwl na dim byd am sut gallan nhw helpu. Fe wnaeth cyflwr llawer o bobl ddirywio. "***

Person Ifanc, MACS, Gogledd Iwerddon

***" Y cyngor byddwn i'n ei roi i'r Llywodraeth i'w helpu nhw i wneud yn siŵr bod hawliau plant yn cael eu diogelu yn ystod pandemig yw eu bod nhw'n gwrando ar farn plant a beth sydd ganddyn nhw i'w ddweud. "***

Person Ifanc, Arolwg 'Kids Life and Times' (KTLS), Gogledd Iwerddon[19]

Yng Ngogledd Iwerddon, er gwaethaf y teimladau negyddol ynghylch gwleidyddion a phleidiau unigol, roedd yn amlwg bod llawer o'r bobl ifanc yn awyddus i ymwneud â materion cymdeithasol a gwleidyddol ond yn cael trafferth dod o hyd i blaid neu blatfform y gallen nhw fod yn rhan ohonynt. Roedden nhw'n sôn am y newid yn yr hinsawdd, hawliau tai, materion benywod a chymorth i fyfyrwyr fel materion oedd o bwys i'w cenhedlaeth nhw.[20]

***"Rydyn ni eisiau cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgyrchu am y pethau sy'n bwysig i ni, ond weithiau dydyn ni ddim yn siŵr sut i wneud hynny."***

Person Ifanc, Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon, GI

***"Mae pethau fel yr amgylchedd yn effeithio ar bawb, ac mae angen i ni dreulio mwy o amser yn tynnu sylw at y materion yna, nid y pethau sy'n ein gwahanu ni."***

Person Ifanc, Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon, GI

Cafodd pobl ifanc sgyrsiau cadarn iawn hefyd ynghylch gallu pobl ifanc i bleidleisio'n 16 oed.[21]

***"I bob pwrpas, mae pobl ifanc 16 oed yn oedolion, ac mae llawer o'r pethau mae gwleidyddion yn penderfynu yn eu cylch yn effeithio'n uniongyrchol arnon ni, felly dylen ni gael lleisio barn."***

Person Ifanc, Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon, GI

***"Dyw hi ddim yn deg bod cenedlaethau hŷn sydd yn y lleiafrif yn ffurfio ac yn dylanwadu ar bolisi fydd ddim hyd yn oed yn effeithio llawer arnyn nhw yn y dyfodol, o gymharu â phobl ifanc, beth bynnag."***

Person Ifanc, Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon, GI

---

[19] https://www.ark.ac.uk/klt/2020/Coronavirus/
[20] Our Voices: Looking Beyond Borders, Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon, Chwefror 2022
[21] ibid

Mae plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi cwestiynu a ydyn nhw wir yn cael eu gwrando a'u cymryd o ddifri.

*.... mwy o gyfleoedd i bobl ifanc roi eu barn.*

Person Ifanc, Cymru

Yn dilyn ymlaen o hyn, mae plant a phobl ifanc wedi amlygu'r diffyg cynrychiolaeth fel rhan o gyfleoedd i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac wedi rhannu eu bod yn teimlo dylai mwy gael ei wneud i sicrhau bod cyfleoedd yn fwy hygyrch ac yn cyrraedd mwy o blant a phobl ifanc o gefndiroedd mwy amrywiol.

*Rwy'n credu bod cynrychiolaeth fwy amrywiol o bobl ifanc mewn ysgolion cynradd yn bwysig, gan fod eu barn yn bwysig iawn.*

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Mae angen mwy o atebolrwydd i sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei chymryd o ddifri ac yn dylanwadu'n effeithiol ar newid. Dim ond ar adegau prin iawn dylai plant a phobl ifanc ddim cael eu cynnwys:

*Dim ond pan fydd rheswm da iawn y dylai penderfyniadau ddigwydd heb gynnwys plant a phobl ifanc, er enghraifft os nad oes modd cadw plant yn ddiogel, neu os nad yw er eu lles pennaf.*

Panel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

## 4. Hawliau sifil a mathau o ryddid

**Stopio a chwilio**

Mae defnyddio stopio a chwilio a chwilio noeth yn dal i gael effaith negyddol ar berthynas plant a phobl ifanc gyda'r heddlu a'r awdurdodau. Byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dweud bod hyn yn offeryn hollbwysig i ddiogelu'r cyhoedd ac atal troseddu, a'i fod yn cael ei gydbwyso â hawliau plant. Mae mesurau diogelu penodol y mae'n rhaid i'r heddlu eu dilyn wrth chwilio plant, gan gynnwys canllawiau ar iaith, llesiant a sicrhau bod y cyfan yn digwydd gan ddangos parch.

Fodd bynnag, mae plant a phobl ifanc yn teimlo ar brydiau eu bod yn cael eu targedu'n anghymesur gan yr heddlu.

Yng Ngogledd Iwerddon, rhwng Gorffennaf 2021 a Mehefin 2022, plant a phobl ifanc rhwng 13 ac 17 oed oedd 10.8 y cant – neu 2,204 – o gyfanswm y rhai a gafodd eu stopio gan yr heddlu, er eu bod yn cyfrif am 6.4 y cant yn unig o'r boblogaeth. O'r 2,204 hynny a gafodd eu stopio a'u chwilio, dim ond 63 gafodd eu harestio. Cafodd 55 o blant eraill 12 oed ac ifancach eu stopio a'u chwilio hefyd. Ni chafodd neb o'r rheiny eu harestio.[22]

Yn 2021, cafwyd 34 o achosion lle chwiliwyd pobl ifanc o dan 18 oed yn noeth gan yr heddlu, ac roedd dau o'r achosion hynny yn bobl ifanc rhwng 12 ac 14 oed. Ni chafodd yr heddlu hyd i gyffuriau, arfau nac unrhyw beth arall niweidiol o ganlyniad i bron y cyfan (31/34) o'r chwiliadau noeth gan swyddogion ar bobl ifanc o dan 18 oed y llynedd.[23]

***“Dydyn nhw ddim yn rhoi rheswm pam maen nhw'n stopio chi, dim ond dweud mai cyffuriau neu arfau sydd dan sylw, ond dydyn nhw ddim yn rhoi rheswm go iawn.”***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon[24]

***“Maen nhw'n poeni pobl ifanc; rydw i'n cael fy stopio drwy'r amser.”***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

***“Maen nhw'n rhagdybio ac yn barnu pobl ifanc.”***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

Mae pob achos diangen o stopio a chwilio yn gadael effaith negyddol ar gysylltiadau cymunedol, ac yn gadael miloedd o bobl yn teimlo eu bod wedi'u targedu'n annheg.

Yng Nghymru, mae CPC wedi gweld data sy'n dangos bod rhai plant o dan 11 oed wedi cael eu chwilio'n noeth. Mae'n hanfodol bod barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried ynghylch yr arfer yma, a bod canllawiau'n ceisio diogelu hawliau plant.

**Cyfiawnder Hinsawdd: Hawl i ymgynnull**

---

[22] Ystadegau Stopio a Chwilio PSNI, a ryddhawyd ym mis Awst 2022
[23] https://www.thedetail.tv/articles/psni-strip-searching-of-under-18s-is-deeply-shocking
[24] http://www.includeyouth.org/mgmt/resources/include-youth-response-to-draft-northern-ireland-policing-plan-2020-2025.pdf

Mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn effeithio ar fywydau plant ar draws y Deyrnas Unedig. Mae digwyddiadau tywydd difrifol megis stormydd a llifogydd yn difrodi seilwaith hanfodol, tai, ysgolion, mannau chwarae a hamdden, ac yn amharu ar gadwyni cyflenwi. Mae hynny'n effeithio ar addysg plant, eu hiechyd corfforol a meddyliol, a safon byw sy'n ddigonol. Nid yw plant bob amser yn gwybod sut i frwydro dros gyfiawnder hinsawdd na pha gamau protestio maen nhw'n gallu eu cymryd yn gyfreithlon ac yn ddiogel.

> ***"Ar lefel genedlaethol a lleol, does gan bobl ddim pŵer."***

Ymgynghorydd Ifanc CYPCS, yr Alban

Gallai adroddiadau negyddol am brotestiadau yn y cyfryngau atal plant rhag mynd i brotestiadau neu amddiffyn y blaned.

> ***"Mae angen i bobl wybod beth sy'n iawn i'w wneud er mwyn iddyn nhw allu siarad yn rhydd heb ofni beth sy'n mynd i ddigwydd iddyn nhw. Mae angen i'r rhai sydd â phŵer wrando, a gwrando'n astud!"***

Ymgynghorydd Ifanc CYPCS, yr Alban

Amlygodd pobl ifanc o gymunedau gwledig fod diffyg cyfleoedd i fod yn rhan o brotestiadau, o gymharu ag ardaloedd trefol. Yng Nghymru, mynegodd plant a phobl ifanc bryderon ynghylch eu hawl i ymgynnull yn heddychlon yng ngoleuni Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (2022).

> ***"Rwy'n credu bod ein gallu i fynegi barn trwy brotestio yn gyfyngedig nawr bod protestio'n cael ei droseddoli'n raddol."***

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Soniodd plant a phobl ifanc am yr angen i sicrhau gwell addysg a dealltwriaeth o sut gallan nhw leisio barn trwy ymgynnull a phrotestio'n heddychlon. Teimlai Ymgynghorwyr Ifanc CYPCS nad yw Llywodraeth yr Alban yn rhannu gwybodaeth am beth maen nhw'n ei wneud i liniaru cyfiawnder hinsawdd mewn modd a luniwyd i'w cyrraedd, felly dydyn nhw ddim yn gwybod beth mae'r llywodraeth yn ei wneud, na pha gamau maen nhw'n gallu eu cymryd.[25]

[25] Ymgynghoriad ymgynghorwyr ifanc CYPCS ar yr ymateb i'r Adroddiad ar yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol ym mis Mawrth 2022

***“Rydw i wedi ceisio ymchwilio yn y gorffennol, ond mae’n eitha anodd. Mae arnon ni angen dogfen syml gyda phwyntiau bwled i bawb eu gweld, rhywbeth hawdd ei gyfleu sydd ar gael yn hwylus.”***

Ymgynghorydd Ifanc CYPCS, yr Alban

**Mynediad Digidol**
Ar draws y tair awdurdodaeth mae’r awdurdodau’n cydnabod bod angen gwasanaethau ar-lein ar blant ar gyfer addysg, ac amlygwyd hynny ymhellach yn ystod y pandemig. Wrth i ni symud allan o’r pandemig, mae diffyg mynediad at offer digidol wedi cael effaith niweidiol ar addysg llawer o blant a phobl ifanc. Mae dysgu ar-lein yn creu heriau penodol i blant sydd â mynediad cyfyngedig, os o gwbl, at dechnoleg neu’r rhyngrwyd, neu sydd heb gefnogaeth ariannol ddigonol gan eu rhieni.

Mae pobl ifanc hefyd yn cydnabod effaith tlodi digidol a’r cynnydd mewn dysgu ar-lein. Roedden nhw’n cynnig y gellid ailgalibreiddio hen ddyfeisiau oedd ddim yn cael eu defnyddio, a’u dosbarthu i blant a phobl ifanc oedd yn methu prynu dyfais.

***“Felly ar hyn o bryd mae fy ngwaith yn crynhoi achos mod i ar ei hôl hi yn ystod y cyfnod clo oherwydd bod dim gliniadur gen i. Felly allwn i ddim bod wedi gwneud unrhyw waith, a dylid nodi mai TGCh [oedd y cwrs] roeddwn i’n gwneud.”***

Person Ifanc, MACS, Gogledd Iwerddon

Roedd person ifanc arall yn fwy ffodus.

***“Roeddwn i’n eitha lwcus mewn gwirionedd, mewn ffordd, achos bod rhai pobl heb ddyfeisiau. Roedd fy ngweithiwr cymdeithasol wedi gofyn i’r ysgol roi un i fi, neu dylwn i ddweud roi un ar fenthyg i fi. Felly fe roeson nhw liniadur i fi, ac roeddwn i’n gallu gwneud pethau. Ond mae rhai pobl wedi methu gwneud unrhyw waith o gwbl.”***

Person Ifanc, MACS, Gogledd Iwerddon

## 5. Trais yn erbyn plant

Rhaid i Lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeuluso a thriniaeth wael gan eu rhieni, neu gan unrhyw un arall sy’n gofalu amdanyn nhw. Mae Llywodraethau ac eraill

wedi datblygu mentrau niferus i atal ac ymateb i drais yn erbyn plant, ond mae angen gwneud mwy.

**Bwlio**

Mae pob awdurdodaeth yn cydnabod y gall bwlio gael effaith ddifrifol ar lesiant plant, a bod plant ag anghenion addysgol arbennig yn fwy tebygol o brofi bwlio. Mae gan bob awdurdodaeth eu mentrau eu hunain i atal bwlio a chefnogi mesurau gwrthfwlio. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith, gan fod bwlio'n fater mae plant yn ei godi'n aml, yn arbennig wrth sôn am eu hiechyd meddwl, yr ysgol a'u bywydau ar-lein.

Yn 2020, adroddodd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth fod 77% o'r myfyrwyr cynradd ac uwchradd yr ymgynghorwyd â nhw yng Nghymru yn credu bod hiliaeth yn bodoli yn eu lleoliadau ysgol.[26] Soniodd plant a phobl ifanc am y ffaith bod hiliaeth yn digwydd yn ddifeddwl mewn ysgolion, a bod angen arweiniad pellach gan staff.

> ***"Mae pobl yn yr ysgol sy'n dweud pethau hiliol wrth ei gilydd fel jôc, ond tase rhywun arall yn clywed gallen nhw gael eu digio neu eu brifo. Falle bod eisiau sôn wrth fyfyrwyr ac athrawon bod hynny ddim yn iawn, hyd yn oed i fod yn ddoniol. Mae angen canllawiau cliriach."***

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

> ***"Mae hiliaeth yn cael ei ddefnyddio yn ddifeddwl, mae pobl yn meddwl bod defnyddio hiliaeth fel jôc yn ddoniol."***

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

"

Mae adroddiad 'Life in Scotland for LGBT Young People 2022' yn dangos bod bwlio yn yr ysgol yn dal yn broblem. Soniodd 58% o'r cyfranogwyr deurywiol a 70% o'r cyfranogwyr hoyw/lesbiaidd am brofi bwlio homoffobig/deuffobig yn yr ysgol. Mae 57% o'r myfyrwyr trawsrywedd yn sôn am brofi bwlio trawsffobig yn yr ysgol. [27]

> ***"Fe ddes i allan i ffrindiau agos roeddwn i'n eu trystio, ond fe wnaethon nhw ledaenu'r wybodaeth ar draws yr ysgol. Roeddwn i'n cael pobl hŷn na fi doeddwn i ddim hyd yn oed yn eu nabod yn gweiddi'n sarhaus arna i yn y cyntedd."***

[26] https://static1.squarespace.com/static/574451fe37013bd0515647ac/t/5ed659aa1288d943ddd2a784/1591106007132/Racism+in+Wales+-+Exploring+racism+the+Education+system+May+2020++%28F%29.pdf

[27] https://www.lgbtyouth.org.uk/media/2712/life-in-scotland-for-lgbt-young-people-2022-e-use.pdf

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland | Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales | NICCY PROMOTING THE RIGHTS OF CHILDREN & YOUNG PEOPLE

Person Ifanc, yr Alban

Mae hyder ynghylch rhoi gwybod i staff neu ffigurau ag awdurdod yn yr ysgol am homoffobia/ddeuffobia wedi gostwng o 44% yn 2012 i 25% yn 2022. Mae hyder wedi gostwng hefyd o ran rhoi gwybod am drawsffobia, o 43% yn 2012 i 26% yn 2022. Yn yr un modd, mae homoffobia, trawsffobia a rhywiaeth wedi cael eu codi gan blant a phobl ifanc fel problem sylweddol yng Nghymru. Mewn modd tebyg i hiliaeth, mae plant a phobl ifanc yn sôn am agweddau ac ymddygiad camwahaniaethol yn digwydd yn ddifeddwl, wrth fynd heibio.

***Bob tro byddwn ni'n cerdded lawr y coridor, bydd rhywun yn galw enwau arnon ni.***

Person Ifanc, LHDTC+, Adroddiad Estyn, Cymru

***Yn aml maen nhw'n syllu, ac allwch chi ddim rhoi gwybod am hynny achos bod dim tystiolaeth.***

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn yr Alban eisiau gweld gwaith gweithredol i atal bwlio yn yr ysgol a gwaith penodol yn cael ei wneud ar ofal mewn ysgolion. Yng Ngogledd Iwerddon, rhannodd pobl ifanc oedd mewn gofal sut roedd y disgyblion eraill yn eu trin yn wahanol yn yr ysgol, a sut roedden nhw'n wynebu bwlio ar adegau oherwydd eu statws gofal. Mae newid lleoliad yn aml yn arwain at newid ysgol, a gall pobl ifanc gael trafferth ymgartrefu a chael eu derbyn i grŵp o ffrindiau.[28]

***Gall stigma Pobl Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal (CEPY) droi'n fwlio mewn ysgolion. Dylai pobl gymryd y system o fod mewn gofal yn fwy o ddifri. Angen cerdded milltir yn eu sgidiau nhw. Angen siarad â phobl ifanc yn yr ysgol sydd yn y system ofal – mae'n gallu bod yn brofiad trawmatig dros ben.***

Person Ifanc, yr Alban

[28] Tystiolaeth i'r Panel Arbenigol ar Dangyflawni ym myd Addysg ac Anfantais Cymdeithasol, mis Hydref 2020, Include Youth

*Fe ges i fy mwlio am fod mewn gofal.*

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

Mae bwlio ymhlith cyfoedion mewn ysgolion yn broblem i blant a phobl ifanc yn yr Alban. Maen nhw'n nodi hyn fel prif achos diffyg parch i hawliau plant. Soniodd plant am bum math gwahanol o fwlio, gyda sarhau ar-lein a galw enwau wyneb yn wyneb yn fwyaf cyffredin. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch peidio â gwybod beth i'w wneud neu at bwy i droi yn yr ysgol i roi gwybod am achosion o fwlio.

*Mae llawer o fwlio, ac mae'n digwydd drwy'r amser. Beth dylen ni wneud os cawn ni'n bwlio, a beth gallwn ni wneud os na fydd yr ysgol yn gweithredu? Dwy ddim yn siŵr ydyn ni'n cael gwybod hynny.*

Person Ifanc, yr Alban

*Rheswm arall pam dyw pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ddim yn gwneud cystal â'u cyfoedion yw stigma. Gwaetha'r modd, gall hyn ddod ar ffurf bwlio gan bobl ifanc neu gan athrawon, a'u persbectif o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.*

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

Mae plant a phobl ifanc yn amlygu rôl staff mewn lleoliadau addysg fel elfen bwysig i herio iaith/ymddygiad niweidiol sy'n camwahaniaethu, mewn modd sy'n esbonio ac yn addysgu, trwy ddull gweithredu safonedig, yn unol â CCUHP.

*Dyw athrawon ddim yn gyfforddus/hyderus i herio hyn weithiau, achos dydyn nhw ddim yn gwybod ble mae'r terfyn.*

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

*Rwy'n credu bod problem gydag athrawon yn llaesu dwylo ynghylch rhywiaeth, hiliaeth, etc. sy'n golygu bod neb yn cael eu herio am wneud hynny, a hyd yn oed os ydyn nhw, mae'n cael ei drin fel dim mwy na thynnu coes gwael.*

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Bu pobl ifanc hefyd yn rhannu profiadau o gamwahaniaethu oherwydd anabledd gyda ni.

> ***“Mae galluedd hefyd yn broblem fawr. Unwaith, pan oeddwn i wedi gorlwytho’n ddifrifol, ac yn bryderus dros ben, dywedodd yr athro wrthyf fi am beidio â ‘chwarae’r cerdyn awtistiaeth’.”***

Person Ifanc ag ADY, Cymru

Mae angen ystyriaeth a gweithredu pellach i amddiffyn a diogelu plant rhag bwlio a chamwahaniaethu, ac mae angen monitro’r camau gweithredu hyn a’u hystyried yn fanwl.

**Ataliaeth a neilltuo**

Ar draws y tair awdurdodaeth, defnyddir ynysu, neilltuo ac ataliaeth mewn lleoliadau addysg, gofal, iechyd meddwl a chadw’n ddiogel, weithiau gan achosi trawma iechyd meddwl, a chan arwain at anafiadau weithiau. Ni ddylid defnyddio ataliaeth ond pan fydd popeth arall wedi methu, a dylai unrhyw ddefnydd fod yn gymesur, cael ei gofnodi’n gywir a chael ei adolygu.

Teimlai Youth Justice Voices yn yr Alban, mewn ymateb i’r *Children’s Care and Justice Bill*, fod angen sicrhau mwy o gyfraith ac arweiniad ar ataliaeth, yn arbennig mewn sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI). Fe sonion nhw am deimlo/weld pobl oedd yn cael eu hatal “yn syrthio’n glep i’r llawr”, a bod hynny’n drawmatig. Roedden nhw’n teimlo bod brifo neu atal plentyn neu berson ifanc yn ddiangen yn annheg.[29]

> ***“Yn amlwg pan fydd ataliaeth, falle bydd y person ifanc ddim yn hoffi cael eu cyffwrdd (oherwydd profiadau yn y gorffennol) wrth i hynny ddigwydd, yna gallai (bod) yn y bocs eu cythruddo a’u gwneud yn rhwystredig, a falle byddan nhw ddim yn bwriadu taro nôl.”***

Person Ifanc, yr Alban

> ***“Dylai fod mwy o gyfraith gyda chanlyniadau llymach i’r carchar, achos dyw llety diogel ddim mor arw.”***

Person Ifanc, yr Alban

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru bryderon ynghylch defnyddio, cofnodi a monitro arferion cyfyngol, gan gynnwys ataliaeth mewn lleoliadau cleifion mewnol a diogel yng

---

[29] https://www.staf.scot/blog/youth-justice-voices-response-to-childrens-care-and-justice-bill

Nghymru. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi adrodd am bryderon droeon ynghylch ataliaeth ac arferion ataliol mewn rhai lleoliadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol (2021) sy'n ceisio lleihau'r defnydd o arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol i bobl o bob oed.[30] Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud mwy i weithredu'r canllawiau hyn.

Mae adolygiad NICCY 'Neither Seen Nor Heard', sy'n seiliedig ar hawliau, ar y defnydd o ataliaeth a neilltuo mewn lleoliadau addysgol yn amlygu'r trawma mae plant yn ei brofi wrth gael eu hatal yn amhriodol neu eu hynysu. Mae'n nodi bod *'Rhaid i bob lleoliad addysgol sicrhau bod pob un o'u camau gweithredu yn sicrhau bywyd llawn a gweddus, ac yn hybu urddas plant sydd ag anghenion ychwanegol'.*[31]

> ***Roeddwn i'n cael trafferth amser egwyl a chinio oherwydd y sŵn, fe stopiais i fwyta a disgyn i 3 stôn a hanner. Pan gafodd fy ysgol wybod, eu hateb oedd rhoi fi mewn stafell ar fy mhen fy hun. Roeddwn i'n teimlo'n gaeth ac yn unig. Dydw i ddim yn hoffi bod yn wahanol, ond dyna sut wyf fi, ac fe ddechreuais i hunan-niweidio. Allwn i ddim gweld ffordd allan; doedd gen i ddim gobaith. Rwy'n dymuno bod mam heb orfod brwydro am gefnogaeth, ond rwy'n falch bod hi wedi gwneud, neu fyddwn i ddim yma heddi, rydyn ni'n haeddu teimlo'n ddiogel ac yn hapus.***

Person Ifanc, Gogledd Iwerddon

**Cadw'n ddiogel ar-lein**

Mae pobl ifanc yn sylweddoli pwysigrwydd cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein a sicrhau eu bod yn deall yn well sut mae defnyddio'r rhyngrwyd yn briodol neu sut mae rheoli camdriniaeth a bwlio ar-lein.

Roedd colli ffrindiau oherwydd cyfathrebu ar-lein yn ystod y pandemig yn thema gyson ymhlith rhai pobl ifanc yn yr Alban. Roedden nhw'n nodi bod y pwyslais ar gyfathrebu ar-lein yn unig wedi arwain at gamddealltwriaeth sawl tro, yn arbennig ymhlith merched, a bod hynny wedi rhoi straen ar berthnasoedd oedd wedi parhau yn yr ysgol a bywyd "all-lein".[32]

---

[30] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-07/reducing-restrictive-practices-framework.pdf#:~:text=Reducing Restrictive Practices Framework A framework to promote,social care settings for people of all ages.
[31] https://www.niccy.org/media/4026/niccy-restraint-and-seclusion-main-report-final-16-dec-21.pdf
[32] COVID-19 for Children and Young People Young Carers, Part 1 - A Place in Childhood

Soniodd rhai pobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon am y pwysau oedd arnyn nhw, yn arbennig merched, i rannu delweddau amhriodol ac ymddygiad rhywiol ar-lein, a nodwyd y dylai ysgolion a chanolfannau ieuenctid fod yn darparu mwy o gyngor, gwybodaeth, ac arweiniad am ddiogelwch digidol. Awgrymodd y bobl ifanc y dylen nhw gael mwy o fynediad at gyfleoedd addysgol rhyngweithiol i gefnogi a gwella'u diogelwch digidol, ac y gellid darparu adnoddau ar-lein i ymateb i'w hanghenion o ran iechyd meddwl a gwydnwch.[33]

***"Mae angen sicrhau eglurder ynghylch hawliau plant a phobl Ifanc wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol – dylai fod fframwaith hawliau plant i'r Telerau a'r Amodau."***

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

**Aflonyddu Rhywiol ac Addysg Cydberthynas a Rhyw (RSE)**

Yn 2021, amlygodd adroddiad Estyn, Arolygaeth ysgolion Cymru, ar aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion fod hyn yn broblem sylweddol i bobl ifanc, a chanfu fod tua hanner yr holl ddisgyblion wedi cael profiadau o aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion.[34] Dilynwyd hyn gan ymchwiliad y Senedd yn 2022, lle gwelwyd canfyddiadau tebyg.

Diffiniad Adran Addysg y Deyrnas Unedig o aflonyddu rhywiol yw "persistent unwanted conduct of a sexual nature by a child towards another child that can occur online and offline. Sexual harassment is likely to: violate a child's dignity, and / or make them feel intimidated, degraded or humiliated and / or create a hostile, offensive or sexualised environment."[35]

***"Os yw dy sgert yn rhy fyr rwyt ti'n hwren neu'n slag. Os yw dy sgert yn rhy hir rwyt ti'n ddiflas neu'n oer. Os wyt ti'n gwisgo sgert fer, bydd bechgyn yn cymryd hynny fel cydsyniad – rwyt ti'n gofyn amdani."***

Person Ifanc, adroddiad Estyn, Cymru

Mae adroddiad Estyn yn amlygu bod pobl ifanc yn credu bod *"hanesion bywyd go iawn gan bobl go iawn"* yn bwysig wrth addysgu ar y pwnc yma.

---

[33] Adroddiad ar Ganfyddiadau Ymgynghoriad â Phobl Ifanc ar gyfer Cynllun Cyflawni Strategaeth Plant a Phobl Ifanc y Weithrediaeth 2021-2024, EAYS, 2022

[34] Profiadau o aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion sy'n ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru – adnoddau ategol

[35] https://www.keepingchildrensafeineducation.co.uk/part_five_ch_sex_viol.html#sch_coll_aware_of

*…dylen nhw drafod profiadau realistig yn yr arddegau yn hytrach na dysgu am ryw mewn gwersi gwyddoniaeth.*

Person Ifanc, Cymru

Bu pobl ifanc o wahanol rannau o Gymru yn trafod eu profiadau o ddiffyg addysg a sylwadau amhriodol gan hwyluswyr. Mae pobl ifanc yn galw am ddull gweithredu safonol, seiliedig ar hawliau plant, er mwyn hybu addysg effeithiol ar y pynciau hyn fel mesur ataliol.

*Fe gawson ni sgyrsiau cydsyniad yn fy ysgol gan yr heddwas lleol, roedd y syniad yn dda, ond roedd beth ddwedodd e'n llawn o feio'r dioddefydd... rwy'n credu bod angen i sgyrsiau am gydsyniad fod yn safonol a diduedd.*

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Fel rhan o'r cwricwlwm newydd i Gymru, bydd addysg RSE yn orfodol i bob disgybl yng Nghymru. Mae pobl ifanc wedi myfyrio ar yr angen am addysg ar y pynciau hyn, i'w paratoi ar gyfer digwyddiadau bywyd:

*Mae arnon ni angen i RSE fod yn orfodol ar hyd bywyd ysgol. Mae angen hynny arnoch chi gydol oes, felly mae angen mwy o fanylion arnon ni am bopeth. LHDT, addysg rhyw, aflonyddu rhywiol, materion rhywedd – mae angen mwy o fanylion arnon ni am y pynciau yma yn ogystal â iechyd meddwl. Mae aflonyddu'n digwydd oherwydd diffyg addysg.*

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

*Ddylen ni fod yn gwybod sut mae perthynas iach a chryf yn edrych ac yn swnio nid dim ond mewn cwpl ond yn eich teulu? Beth i'w wneud os na fydd rhywun yn parchu eich cydsyniad – dylen ni wneud pobl yn ymwybodol o hyn a gweld sut mae modd ei ddatrys.*

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Canfu adroddiad Fforwm Ieuenctid Belfast 2019 – Barn Pobl Ifanc am Gydberthynas a Rhywioldeb yn Belfast – a luniwyd mewn partneriaeth â Chanolfan Hawliau Plant a Ieuenctid Cyffredin QUB, fod 86% o bobl ifanc yn teimlo mai'r ysgol oedd y lle gorau i gael Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ond 66% yn unig o'r ymatebwyr oedd wedi derbyn yr addysg honno yn yr ysgol. Barnwyd bod amlder, cynnwys a chyflwyniad yr addysg honno'n elfennol, heb fod yn ddefnyddiol nac o gymorth, ac yn llawn biasau.

Hefyd teimlai 49% o bobl ifanc fod y dull o addysgu RSE yn dod o dan ddylanwad crefydd neu ethos yr ysgol roedden nhw'n ei mynychu. Fodd bynnag, teimlai bron tri chwarter o bobl ifanc na ddylai crefydd neu ethos yr ysgol ddylanwadu ar RSE. [36]

Ar sail argymhelliad Panel Ieuenctid NICCY i'r Panel Adolygiad Addysg Annibynnol (2022), *"…dylid datblygu Fframwaith RSE. Byddai hynny'n helpu i gefnogi lleoliadau addysg i hybu RSE trwy ddull gweithredu cyfannol, amlddisgyblaeth, oed-briodol. Gall addysgu'r pynciau hyn mewn modd oed-briodol, o safon uchel, ar sail tystiolaeth, helpu i baratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn."*

Fe wnaethon nhw amlygu hefyd y rôl y gallen nhw, fel pobl ifanc, ei chwarae wrth gefnogi'r cwricwlwm RSE.[37]

***Nid yw gadael i'r ysgol a'r llywodraethwyr benderfynu ar gynnwys y cwricwlwm RSE yn cyflawni anghenion pobl ifanc. Mae'n hanfodol bod y cwricwlwm RSE a gyflwynir wedi'i seilio ar anghenion gwirioneddol pobl ifanc, yn hytrach na'r anghenion mae oedolion wedi'u rhagdybio a phenderfynu arnynt. Nid yw RSE effeithiol yn annog arbrofi rhywiol cynnar; yn hytrach mae'n dysgu pobl ifanc i ddeall rhywioldeb dynol a pharchu eu hunain ac eraill...***

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

**Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)**
Mae trais yn erbyn menywod a merched yn broblem fyd-eang ac yn torri hawliau dynol sylfaenol. Mae'r dioddefwyr yn aml yn wynebu canlyniadau am flynyddoedd lawer, ac yn profi trallod seicolegol neu broblemau iechyd corfforol. Cynigiodd Confensiwn Istanbul (Cyngor Ewrop, 2011), safonau i lywodraethau er mwyn mynd i'r afael â VAWG. Llofnododd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Gonfensiwn Istanbul ym mis Mehefin 2012 a'i gadarnhau ym mis Gorffennaf 2022.[38] Bydd yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2022. Mae gan yr

[36] https://www.qub.ac.uk/research-centres/CentreforChildrensRights/CCRFilestore/Filetoupload,1005261,en.pdf
[37] https://www.niccy.org/media/4139/niccy-youth-panel-review-of-education-report.pdf
[38] Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a gwrthweithio trais yn erbyn menywod a thrais domestig (Confensiwn Istanbul)

Alban (diweddarwyd yn 2017) a Chymru (diweddarwyd yn 2022) strategaethau cenedlaethol ar gyfer atal a dileu trais yn erbyn menywod a merched.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru ei strategaeth ar gyfer 'Taclo Trais yn erbyn Menywod a Merched'. Mae hefyd wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer gweithwyr proffesiynol i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, er bod CPC yn deall bod y gefnogaeth sydd ar gael i blant sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol yn amrywio ar draws Cymru.

Dim ond yn awr mae Gogledd Iwerddon yn llunio 'Strategaeth ar gyfer Dileu Trais yn erbyn Menywod a Merched'. Comisiynodd Swyddfa Gweithrediaeth GI waith ymchwil (YLTS, 2022) ar y mater hwn a chanfod: [39]

- Bod bron un o bob pum gwryw ifanc yn credu bod postio jôcs neu sylwadau cas, rhywiol eu natur ar y cyfryngau cymdeithasol (19%), neu alw'n sarhaus ar rywun yn y stryd, chwibanu arnyn nhw neu weiddi arnyn nhw (18%) yn ymddygiad derbyniol;
- Bod mwy na hanner y merched ifanc yn adnabod rhywun yn bersonol sydd wedi cyffwrdd â merch neu fenyw, rhoi cwtsh iddi neu ei chusanu heb iddi gydsynio (57%); a bod
- Pedwar o bob deg gwryw ifanc yn adnabod rhywun yn bersonol sydd wedi postio jôc neu wneud sylwadau cas, rhywiol eu natur, am ferch neu fenyw ar y cyfryngau cymdeithasol (41%), neu rywun sydd wedi rhannu lluniau neu fideos personol o ferch neu fenyw heb iddi gydsynio (40%).

Mae'r bobl ifanc yn adroddiad Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon 'Our Voices' yn ymwybodol bod benywod ifanc yn agored i niwed, a bod cymdeithas yn eu camfarnu a'u trin yn gas.[40]

***"Mae angen i ni fynd i'r afael â thrais yn erbyn merched a menywod a'r holl bethau eraill fel sbeicio, rhywioli menywod, ofni cerdded heb gwmni (menywod), sut mae dynion yn gweld menywod a'r diwylliant llanciau a derbyn iaith ac ymddygiad sy'n gwneud popeth yn rhywiol.***

Person Ifanc, Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon, GI

Bu Cymorth i Fenywod GI yn hwyluso ymateb plant a phobl ifanc i alwad y Llywodraeth am fynegi barn mewn perthynas â Strategaeth Trais Domestig a Rhywiol Gogledd Iwerddon a

[39] Ending Violence Against Women and Girls: Experiences and Attitudes of 16 year olds in Northern Ireland, TEO, 2022
[40] Our Voices: Looking Beyond Borders, Fforwm Ieuenctid GI, 2022

Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched Gogledd Iwerddon. Teimlai'r plant a'r bobl ifanc fod gan bawb hawl ddynol sylfaenol i fyw bywyd heb drais a chamdriniaeth.[41]

> ***Rydw i eisiau i bob menyw a phlentyn deimlo'n ddiogel a stopio'r holl niwed.***
>
> Benyw Ifanc, Cymorth i Fenywod, Gogledd Iwerddon

Mae dod i gysylltiad â cham-drin domestig wedi cael ei nodi fel profiad niweidiol yn ystod plentyndod (ACE). Mae cyfoeth o waith ymchwil wedi dangos, po fwyaf o brofiadau niweidiol mae plentyn yn eu cael yn ystod plentyndod, mwyaf yw'r effaith negyddol ar eu hiechyd a'u llesiant meddyliol a chorfforol, yn awr ac yn y dyfodol. Canfu Cymorth i Fenywod fod gan 52% o'r plant oedd wedi dod i gysylltiad â thrais domestig broblemau ymddygiad; roedd gan 52% broblemau gyda datblygiad cymdeithasol a chydberthynas; roedd 39% yn cael anawsterau yn yr ysgol, ac roedd 60% yn teimlo'n gyfrifol am y digwyddiadau negyddol.[42] Mae Cymorth i Fenywod Gogledd Iwerddon yn galw am gydnabod yn llawn bod plant a phobl ifanc yn ddioddefwyr cyfartal yn achos trais domestig.

> ***Roeddwn i'n llawn tensiwn ac yn glymau i gyd tu mewn.***
>
> Benyw Ifanc, Cymorth i Fenywod, Gogledd Iwerddon

> ***Roeddwn i'n drist ac yn ofnus.***
>
> Benyw Ifanc, Cymorth i Fenywod, Gogledd Iwerddon

## 6. Amgylchedd y teulu a gofal amgen

**Pobl ifanc mewn gofal**

Mae pobl ifanc wedi amlygu eu pryderon ynghylch gorgynrychiolaeth plant sy'n derbyn gofal yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo bod yr heddlu'n eu trin yn wahanol oherwydd eu bod o gefndir gofal. Maen nhw'n teimlo bod yr heddlu'n eu

[41] Lleisiau Plant a Phobl Ifanc yn ymateb Ffederasiwn Cymorth i Fenywod GI i Alwad y Llywodraeth am fynegi Barn ynghylch Strategaeth Trais Domestig a Rhywiol Gogledd Iwerddon a Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched Gogledd Iwerddon

[42] https://www.womensaidni.org/resources/see-hear-act-2019-2029/

Children & Young People's Commissioner Scotland | Comisiynydd Plant Cymru – Children's Commissioner for Wales | NICCY – Promoting the Rights of Children & Young People

hamau a'u bod yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u holi. Maen nhw'n teimlo bod pobl ifanc o gefndir derbyn gofal yn fwy tebygol o fynd i'r system gyfiawnder, lle na fyddai hynny'n wir am y rhai sydd ddim mewn gofal. Roedd rhai pobl ifanc sy'n byw mewn gofal yn meddwl y gallai'r heddlu wneud yn well o ran deall profiadau a magwraeth plant mewn gofal.[43]

***Dylen nhw siarad â phobl ifanc yn lle ymladd â nhw, pan fyddan nhw'n taro'n ôl yn y diwedd.***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

***Mae angen gwneud heddweision yn fwy ymwybodol o drawma ac anghenion plant sy'n derbyn gofal, a dylen nhw geisio torri'r rhwystrau hynny lawr.***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

***Ches i byth euogfarnau nes i mi fynd i ofal... fe ges i 66 euogfarn mewn 2 flynedd…faswn i ddim yma tasen i heb fod mewn gofal. Hyd yn oed os bydden ni'n mynd i swyddfa'r staff (yn y cartre gofal) i'w pryfocio nhw, bydden nhw'n bygwth ffonio'r heddlu.***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

Mewn gofal diogel, amlygodd un person ifanc bwysigrwydd ffactorau amgylcheddol, yn ogystal â therapïau a gweithgareddau amgen, i gefnogi eu datblygiad.[44]

***Mae'r mesurau cefnogi sy'n angenrheidiol i ddelio â materion iechyd meddwl yn cynnwys therapïau amgen fel aciwbigo, aromatherapi...***
***Sylweddoli nad CAMHS yw'r unig lwybr i ddelio â iechyd meddwl, ac y dylai llwybrau lluosog fod ar gael, yn union fel mae dewis yn y gymuned.***

Gwryw Ifanc, Canolfan Gofal Diogel, Gogledd Iwerddon

[43] http://www.includeyouth.org/mgmt/resources/include-youth-response-to-draft-northern-ireland-policing-plan-2020-2025.pdf
[44] https://www.voypic.org/wp-content/uploads/2021/01/ESTABLISHMENT-OF-A-REGIONAL-CARE-AND-JUSTICE-CAMPUS-VOYPIC-RESPONSE.pdf

Cafodd Covid lawer o effeithiau ar bobl ifanc, ac ar bobl ifanc mewn gofal yn arbennig. Yn achos llawer, ychwanegodd Covid at faterion oedd eisoes yn gymhleth, gan arwain weithiau at gynyddu lefelau straen. Heb fynediad at strategaethau a mesurau cefnogi arferol ar gyfer ymdopi, bu rhai pobl ifanc yn cael trafferth cynnal iechyd meddwl cadarnhaol, ac roedden nhw'n cydnabod eu hunain bod eu llesiant cyffredinol yn dirywio.[45]

***Roedd yn gwneud pethau'n llawer gwaeth... achos roedd gen i fy mrwydrau fy hun yn barod. Felly pan yw'r byd cyfan mewn trafferthion dyw hynny ddim wir yn helpu.***

Benyw Ifanc a adawodd ofal yn ystod Covid-19, Gogledd Iwerddon

***Oherwydd y cyfnod dan sylw, fe es i le tywyll iawn a byddwn i wedi hoffi cael mwy o gefnogaeth.***

Benyw Ifanc a adawodd ofal ychydig cyn Covid-19, Gogledd Iwerddon

***Fe wnes i sylwi bod fy iechyd meddwl wedi dirywio hefyd oherwydd fy ffordd i o siarad â phobl fyddai mynd allan yn y car, eistedd lawr, gwrando ar gerddoriaeth, ac yna siarad, chi'n gwybod beth sy 'da fi?***

Benyw Ifanc a adawodd ofal yn ystod Covid-19, Gogledd Iwerddon

O safbwynt positif, roedd gwaith Adran Iechyd Gogledd Iwerddon i ddatblygu cynigion ar gyfer model gwasanaeth rhanbarthol i Blant oedd ar Wahân, felly, yn gam pwysig ymlaen, yn arbennig gan fod CRIA yn cyd-fynd â'r cynigion ymgynghori a dargedwyd, a gefnogwyd gan NICCY ac a gyflwynwyd gyntaf yng Ngogledd Iwerddon fel rhan o 'A Life Deserved – A Strategy for Looked After Children'.[46]

Cododd pobl ifanc oedd â phrofiad o ofal hefyd fater estyn y Lwfans Cynnal Addysg (EMA) mewn modd tecach.

***Estyn EMA yn llawn heb wrthod pobl ac â system ymgeisio haws. Dim profion modd i bobl ifanc â Phrofiad o Ofal. Fe gymerodd flwyddyn ysgol lawn i fi.***

Person Ifanc, Who Cares? Yr Alban

---

[45] https://www.voypic.org/wp-content/uploads/2021/01/Leaving-Care-During-Covid-19-in-NI-FINAL-REPORT.pdf
[46] DoH (2021) A Life Deserved: A Strategy for Looked After Children

Maen nhw hefyd am weld gwahardd pobl ifanc â phrofiad o ofal yn dod i ben, yn ogystal â symud ysgol droeon, a thynnu plant allan o'r dosbarth am resymau heblaw addysg sy'n gysylltiedig â'r ffaith eu bod mewn gofal.

> ***Stopio gwaith cymdeithasol rhag mynd â phobl ifanc â Phrofiad o Ofal allan o'r dosbarth i siarad â nhw. Dylai ysgolion ddim barnu lefelau addysg yn ôl sefyllfa. Peidiwch â chymryd yn ganiataol ein bod ni'n dwp.***
>
> Person Ifanc, Who Cares?, Yr Alban

Roedd pobl ifanc eisiau amddiffyniad arbennig ar gyfer pobl â phrofiad o ofal sy'n wynebu mwy o rwystrau wrth wireddu eu hawliau yn y Bil Hawliau Dynol newydd arfaethedig, er mwyn helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd.[47]

> ***Dylai'r person ifanc fod yn rhan o'r Gwrandawiad, yr adolygiad PDG, a chynllunio. Dylen nhw fod yn ganolog i newid ar gyfer eu dyfodol.***
>
> Person Ifanc, Who Cares?, Yr Alban

Yng Nghymru, mae nifer y bobl ifanc sydd mewn gofal yn cynyddu, ac yn 2021 roedd 115 o blant o bob 10,000 yn derbyn gofal. Mae ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru yn ceisio gostwng niferoedd y plant sy'n mynd i ofal trwy wella ymyrraeth gynnar. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddileu elw o wasanaethau gofal plant yn raddol. Deellir gan blant a phobl ifanc fod rhaid gwella'r profiadau o ofal i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hybu a'u diogelu. Fodd bynnag, bu enghreifftiau o arfer da a chynnydd mewn sefydliadau diogel sy'n hwyluso fforymau rheolaidd, er mwyn i blant a phobl ifanc gael gwrandawiad.

Mae ar blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal angen cymorth wedi'i dargedu o hyd i ddiwallu eu hanghenion. Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar atal digartrefedd ymhlith unigolion sydd â phrofiad o ofal yn amlygu bod risg uwch y bydd pobl ifanc â phrofiad o ofal yn ddigartref.[48] Mae angen ymyrraeth gynnar i gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, ac mae plant a phobl ifanc yn adrodd nad ydyn nhw'n cael eu clywed nes bod eu sefyllfa'n troi'n argyfwng.

---

[47] https://www.whocaresscotland.org/wp-content/uploads/2016/07/Paving-the-Way-Report-June-2022.pdf
[48] https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2022/10/ENGLISH-PHW-Preventing-homelessness-in-care-experienced-individuals.pdf

***I gael cefnogaeth, mae rhaid i ni frwydro…mae rhaid i ni sgrechan i fedru cael cefnogaeth, ond ddylai pethau ddim bod felna… tase hyn yn digwydd i'ch plentyn chi, chi'n gwbod, byddech chi'n cefnogi nhw o ddiwrnod eu geni, felly pam dydyn ni ddim yn cael ein cefnogi.***

Person ifanc â phrofiad o ofal, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymru

Mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn sôn bod stigma gofal yn effeithio ar sut maen nhw'n cael eu trin yn y gymdeithas.

***Cyn gynted ag y byddan nhw'n darganfod bod gennym ni brofiad o ofal, maen nhw'n dechrau labelu ni fel tasen ni'n bobl wahanol, fel tasen ni ddim yn fodau dynol.***

Person ifanc â phrofiad o ofal, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymru

Amlygwyd trosiant staff yn y sector gofal cymdeithasol hefyd fel rhwystr i gyrchu cefnogaeth gan bobl ifanc â phrofiad o ofal.

***Rydw i wedi mynd trwy ryw 25 o weithwyr cymdeithasol, o leia, felly erbyn i fi gyrraedd gweithiwr cymdeithasol rhif pump roeddwn i'n teimlo bod dim **** o ots gen i bellach.***

Person ifanc â phrofiad o ofal, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymru

Fodd bynnag, rhannodd pobl ifanc â phrofiad o ofal eu hoptimistiaeth ynghylch llunio arferion y dyfodol a gwella gwasanaethau i atal digartrefedd.

***Rydw [i'n] gobeithio […] gallwn ni newid y system […] achos rydw i eisiau gweld newid er gwell, a'r unig ffordd o newid yw helpu'r bobl ifanc sy'n dal yn y system ofal, y gallwch chi eu helpu i beidio â bod yn ddigartref yn y dyfodol.***

Person ifanc â phrofiad o ofal, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymru

**Gofalwyr Ifanc**

Mae gofalwyr ifanc yn aml yn cael eu hanghofio. Nid yw Adroddiad y Wladwriaeth yn cyfeirio at unrhyw ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r mater hwn yng nghyswllt y tair awdurdodaeth.

Cyflwynodd y pandemig heriau newydd dros ben dyletswyddau gofalu nodweddiadol i ofalwyr ifanc. Er enghraifft, yn ystod rhannau o'r pandemig nid oedd plant a phobl ifanc i fod i fynd i mewn i archfarchnadoedd a fferyllfeydd, neu yn nodweddiadol doedden nhw ddim yn ddigon hen i gasglu presgripsiynau pwysig. Roedd hynny'n hanfodol i lawer er mwyn diwallu anghenion aelodau o'r teulu oedd yn anhwylus. Dywedodd gofalwyr ifanc fod pryderon y bydden nhw neu eraill yn dal Covid-19 neu'n mynd i'r ysbyty am resymau eraill yn anodd ymdopi â nhw.[49]

> ***Brawychus – beth fyddai'n digwydd petai rhiant yn mynd i'r ysbyty a bod rhaid i fi ofalu am fy sibling.***

Gofalwr Ifanc, yr Alban

Roedd addysgu o bell yn eithriadol o anodd i ofalwyr ifanc ddelio ag e. Roedd nifer hefyd wedi gorfod cefnogi siblingiaid iau, yn ogystal â'u hunain. O ran cymorth, roedden nhw'n teimlo bod blwyddyn gyntaf y pandemig wedi'i nodweddu gan ddiffyg cefnogaeth cyffredinol. Yn fwy diweddar mae hyn wedi bod ar gael ar ryw ffurf, ond mae plant a phobl ifanc yn dweud ei fod yn teimlo fel rhy ychydig yn rhy hwyr.

> ***Roedd fy chwaer yn methu cysylltu â neb o'i ffrindiau ac yn cael bod addysgu gartref yn anodd, felly rwy'n dymuno bod mwy o gefnogaeth wedi bod ar gael ar y pryd.***

Gofalwr Ifanc, yr Alban

Mae gofalwyr ifanc yn sôn bod cefnogaeth yn yr ysgol yn hanfodol os ydyn nhw i oroesi a ffynnu ym myd addysg – "os yw e yno mae'n wych, ond yn aml dyw e ddim yno".[50]

> ***Cysylltiadau da yn yr ysgol i bob gofalwr ifanc – er enghraifft, canllawiau da i athrawon fyddai hepgor gwaith cartref i leihau'r straen. Dylai hyn gael ei ystyried yn ehangach.***

Gofalwr Ifanc, yr Alban

---

[49] COVID-19 for Children and Young People Young Carers, Part 1 - A Place in Childhood
[50] COVID-19 for Children and Young People. Young Carers Part 2 - A Place in Childhood

Mae gofalwyr ifanc yng Ngogledd Iwerddon yn ymgymryd â'r dyletswyddau corfforol ac emosiynol mae oedolion fel arfer yn delio â nhw, a gall hynny eu llethu ar brydiau. Yn aml does dim cydnabyddiaeth na chefnogaeth yn amgylchedd eu hysgol.

> ***"Maen nhw'n gwybod am ein teulu, ond dwy ddim yn credu bod nhw'n meddwl amdana i fel gofalwr ifanc."***

Gofalwr Ifanc, Action for Children, Gogledd Iwerddon

> ***"Bod yn fwy ystyriol o ran beth maen nhw'n dweud ynghylch amgylchiadau pawb, e.e. bod pawb yn yr un cwch gyda darlithoedd ar-lein. Y gwir amdani yw bod amgylchiadau pawb yn wahanol, ac mae'n gallu bod yn anodd cadw i fyny â'r llwyth gwaith o ystyried fy sefyllfa bersonol fy hun."***

Gofalwr Ifanc, Action for Children, Gogledd Iwerddon

Yng Nghymru, mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) yn amlygu bod gofalwyr ifanc yng Nghymru yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig, gyda chynnydd mewn cyfrlfoldebau gofalu yn effeithio ar gyfranogiad gofalwr ifanc mewn addysg.[51] Deellir hefyd fod effaith pandemig Covid-19 yn niweidiol i ofalwyr ifanc, gan ddileu mynediad at wasanaethau a rhwydweithiau cefnogi.

> ***"Rydw i'n ofalwr ifanc, ac alla i ddim fforddio cael COVID yn dod i'r tŷ, gan fod fy rhieni cu yn eithriadol o fregus."***

Gofalwr Ifanc, Cymru

**Digartrefedd**

Mae digartrefedd i bobl ifanc ar i fyny yn gyson. Hyd yn oed cyn Covid, gwelwyd cynnydd sydyn ym mhroblem digartrefedd. Croesawir ymgyrchoedd i roi sylw i hyn yn y tair awdurdodaeth.

Yng Ngogledd Iwerddon bu cynnydd o 55% yn nifer y plant mewn llety dros dro rhwng 2019 a 2022.[52] Mae gan y Llywodraeth ystod o strategaethau tai yn eu lle; fodd bynnag, mae bylchau'n parhau o ran y gefnogaeth i bobl ifanc ag anableddau, teuluoedd a phobl ifanc sy'n destun rheolau mewnfudo, ac ymadawyr gofal ifanc. Mae hyn yn cynnwys

---

[51] Cau'r bwlch ymgysylltu addysgol i ofalwyr ifanc, Iechyd Cyhoeddus Cymru, (2021)
[52] Northern Ireland Homelessness Bulletin July-December 2021. Belfast: DfC, Tabl 3.4

cefnogaeth benodol ar gyfer iechyd meddwl, sefyllfaoedd o fod yn gaeth, a masnachu mewn pobl.[53]

Bu adroddiad Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon (NIYF) ‘kNOwhere to Go’ yn ymgysylltu’n uniongyrchol â phobl ifanc ac yn codi materion ynghylch stigma digartrefedd; y ffaith bod gwybodaeth am ddigartrefedd ddim yn hygyrch, a bod digartrefedd a digartrefedd ieuenctid ddim yn weladwy.[54]

O ganlyniad i’r pandemig a’r cyfnodau clo dilynol a gaeodd rannau sylweddol o’r economi, mae diweithdra wedi codi ar draws pob grŵp oed. Fodd bynnag, mae pobl ifanc wedi cael eu taro’n arbennig o wael, gan eu bod yn aml yn gweithio yn y sectorau yr effeithir fwyaf arnyn nhw. Hefyd mae pobl ifanc yn fwy cyffredin yn teimlo effaith ‘digartrefedd cudd’, lle dyw pobl ddim yn cyflwyno’u hunain i’r weithrediaeth dai fel pobl ddigartref, ond yn hytrach yn aml yn mynd o soffa i soffa yn nhai eu ffrindiau a/neu eu teulu.

Roedd lleoliadau llety priodol yn bwynt trafod pwysig ymhlith y bobl ifanc hynny oedd wedi profi digartrefedd.

> ***“Fe roddodd fy ngweithiwr cymdeithasol yr argraff y byddai’n wych i fi, ond roedd yn llythrennol yn teimlo fel 5 cam ymlaen a 10 nôl. Taswn i wedi cael gwybod y gwir gallwn i fod wedi paratoi’n feddyliol i fod yn ddigartref. Pan gyrhaeddais i yno, roedd yn llawn partïon cyffuriau, a phobl yn curo ar fy nrws yn ddi-baid – roeddwn i mewn dychryn llwyr.”***
>
> Person Ifanc, NIYF, Gogledd Iwerddon

> ***“Mae’n anodd iawn ac yn embaras gofyn am help os wyt ti’n meddwl gallet ti fod yn ddigartre, byddai’n wych mynd rhywle lle roeddet ti’n teimlo bod pobl ddim yn dy feirniadu. Y lle gorau yw rhywle sydd ar gyfer pobl ifanc yn unig, ac amgylchedd cyfeillgar, nid fel y weithrediaeth dai. Mae arnon ni angen gweithwyr ieuenctid a phobl sydd â phrofiad o fod yn ddigartref i roi’r cyngor a’r wybodaeth cywir i ni. Rhywun i siarad â nhw a rhywun sydd yn gwrando go iawn ac yn gwybod beth i’w wneud. Dywedwch y gwir wrthyn ni hefyd.”***
>
> Person Ifanc, NIYF, Gogledd Iwerddon

[53] Homelessness and Housing Insecurity impacting Children and Young People- Astudiaeth Rychwantu Ebrill 2022- NICCY, ar ddod.
[54] kNOwhere to Go’, A peer approach to preventing homelessness in NI, NIYF, 2022

Yng Nghymru, mae pobl ifanc wedi rhannu eu profiadau o gael hyd i ffordd trwy gefnogaeth digartrefedd ieuenctid a'r rhwystrau maen nhw wedi'u hwynebu wrth weithio tuag at fyw'n annibynnol. Buon nhw'n codi pryderon ynghylch y gefnogaeth oedd ar gael a sut doedd hynny ddim yn helpu i'w paratoi i fyw'n annibynnol, ac wynebu anawsterau o ran iechyd meddwl, cyllidebu ac ôl-ddyledion.

Mae pobl ifanc â phrofiad o ofal wedi amlygu rhwystrau tebyg wrth baratoi i fyw'n annibynnol pan oedden nhw'n ymgysylltu â chefnogaeth atal digartrefedd.

> ***Roeddwn i'n arfer byw mewn lleoliad maeth 'Pan fydda i'n Barod', ac yn amlwg doeddwn i ddim yn cael defnyddio'r ffwrn a phopeth oherwydd bod hi ddim yn trystio fi, ond wedyn, achos mod i heb fedru dysgu dim o hynny, fe wnes i adael gofal yn methu coginio, yn methu golchi fy nillad, dim byd, ac yn amlwg mae hynny wedi cael effaith arna i.***

Person Ifanc â Phrofiad o Ofal, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymru

**Plant carcharorion**
Dywedodd plant sydd ag aelod o'r teulu yn y carchar fod angen sicrhau tosturi yn y rheolau a'r cyfyngiadau sy'n dod yn sgîl Covid-19 ac unrhyw sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol, fel bod pobl yn gallu gweld ffrindiau ac aelodau o'r teulu sydd yn y carchar neu'n sâl iawn neu'n unig iawn.[55]

> ***Carcharorion ddim yn cael mynd allan, a dim ymweld, felly allwn i ddim gweld nhad.***

Person Ifanc, yr Alban

## 7. Anabledd, iechyd sylfaenol a lles

Mae adroddiad Gwladwriaeth y Deyrnas Unedig yn dweud bod lleihau anghydraddoldeb iechyd yn uchelgais ganolog i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, amlygodd pandemig Covid-19 heriau parhaus yn y system iechyd. Er enghraifft, mae anghydraddoldeb cyson o ran canlyniadau iechyd, tangyllido cronig i iechyd a gofal cymdeithasol, a lefelau is o feddygon a nyrsys na'r rhan fwyaf o wledydd eraill incwm

[55] COVID-19 for Children and Young People: Learning from Families Outside - A Place in Childhood

uchel yn gadael y wlad yn fregus yn wyneb siociau difrifol fel Covid-19 a rhestrau aros cynyddol ar gyfer gofal dewisol.[56]

**Plant ag anableddau**
Teimlai'r Ymgynghorwyr Ifanc oedd yn rhan o brosiect Covid-19 'A Place in Childhood' yn gryf fod pobl ag anableddau a'u hanghenion yn cael eu gwthio o'r neilltu yn y cyfnod olaf hwn o'r pandemig, wrth i'r holl gyfyngiadau gael eu dileu. Mae llawer o bobl yn dal mewn perygl os byddan nhw'n dal Covid-19 ac mae ysbytai'n cael trafferth ymdopi â lefelau uchel o dderbyniadau. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd difrifol.[57]

> ***Dymuno bod mwy o ystyriaeth i bobl anabl wrth lacio cyfyngiadau. Rydyn ni'n dal mewn perygl. Cael ein gweld fel colled dderbyniol. Ddim yn iawn!***

Gofalwr Ifanc, yr Alban

> ***Newyddion am DNRs i bobl anabl yn anodd iawn i fi a'm teulu glywed.***

Gofalwr Ifanc, yr Alban

Cododd un person ifanc yng Ngogledd Iwerddon y ffaith fod pobl, oherwydd nad oedd gwybodaeth ddealladwy gan y Llywodraeth yn ystod Covid, yn casglu gwybodaeth o'r cyfryngau cymdeithasol, na fyddai o reidrwydd yn gywir nac o gymorth, ac a allai fod yn niweidiol iawn, mewn gwirionedd.[58]

> ***…ydych chi'n cofio sut dwedson nhw am welyau, bod ganddyn nhw ddim ond stafelloedd penodol ar gyfer, chi'n gwbod, plant normal a phlant arbennig, ac felly gyda'r plant ag anghenion arbennig bydden nhw wedi gorfod gwneud y dewis anodd o adel iddyn nhw farw neu adel i'r llall fyw, roedden nhw'n dweud y math yna o stwff.***

Person Ifanc ag anabledd dysgu, Gogledd Iwerddon

---

[56] https://eurohealthobservatory.who.int/news-room/news/item/06-06-2022-united-kingdom-s-redistributive-health-system-faces-major-challenges
[57] COVID-19 for Children and Young People. Young Carers Part 2 - A Place in Childhood

[58] https://www.niccy.org/media/3882/niccy-covid-report-main-report-final-aug-21.pdf

Yng Nghymru, amlygodd canfyddiadau adroddiad 'Coronfeirws a Fi' effaith anghymesur pandemig Covid ar blant a phobl ifanc anabl. Roedd y canfyddiadau'n amlygu bod plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o *"deimlo'n unig, yn drist, a bod angen help ychwanegol i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel."*[59]

Mewn ymateb i adroddiad 'Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl Covid-19' (2021), sefydlwyd Tasglu Hawliau i'r Anabl i ddatblygu cynllun gweithredu fydd yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mae pobl anabl yn eu profi yng Nghymru. Mae pobl ifanc am gael eu cynnwys, eu trin yn deg, a'u parchu.[60]

> ***"Mae sut mae rhai pobl yn ein trin ni bobl ifanc yn ofnadwy, rydyn ni'n dal yn bobl. Nid problemau ydyn ni, ond pobl."***

Person Ifanc Anabl, Cymru

Mae'r argyfwng costau byw yn bryder arbennig i deuluoedd sydd â phlant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd neu'n bygwth bywyd. Mae angen cefnogaeth wedi'i thargedu i gefnogi'r teuluoedd hynny er mwyn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu.

**Iechyd Meddwl**

Mae iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn bryder mawr ar draws y tair awdurdodaeth. Mae plant a phobl ifanc yn wynebu rhwystrau lluosog i gefnogaeth iechyd meddwl, gan gynnwys diffyg gweithredu gan y llywodraeth, rhestrau aros hir iawn, a safon y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ar gael iddyn nhw.

Yn yr Alban, mewn ymateb i arolwg iechyd meddwl yn 2021 o 1000 o bobl ifanc 16-24 oed, dywedodd 72% o'r cyfranogwyr eu bod wedi cael trafferthion iechyd meddwl. Mae plant yn cyfeirio at straen o sawl cyfeiriad, gan gynnwys pwysau arholiadau, argyfwng yr hinsawdd, argyfwng costau byw, a'r rhyfel yn Wcráin. Fodd bynnag, mae 54% yn teimlo bod iechyd meddwl pobl ifanc wedi cael ei gymryd yn fwy o ddifri ers dechrau pandemig Covid-19.[61]

> ***"Does dim digon o gefnogaeth o bell ffordd. Rydych chi'n aros i roi eich enw lawr, rydych chi'n aros bron blwyddyn a hanner, ac yna rydych chi'n cael eich atgyfeirio i fyny ac i fyny, nes cyrraedd rhywun sydd heb syniad o gwbl am beth rydych chi'n sôn.***

---

[59] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_EN.pdf
https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/CoronavirusAndMe_Jan21_ENG_110221_FINAL.pdf

[60] https://gov.wales/locked-out-liberating-disabled-peoples-lives-and-rights-wales-beyond-covid-19-html

[61] https://www.seemescotland.org/news-and-blogs/young-people-feel-their-mental-health-struggles-are-dismissed-by-adults/

Ymgynghorydd Ifanc CYPCS, yr Alban

Yng Nghymru, mae plant a phobl ifanc yn parhau i fynegi'r angen am gymorth a chyngor hygyrch ynghylch materion iechyd meddwl, gyda galwadau am fesurau ataliol.

> ***…helpu plant i ddelio â straen o oed ifanc fel bod ganddyn nhw'r offer i ddelio â phrofiadau bywyd wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn. Rwy'n gwybod o brofiad personol, yn enwedig yn ddiweddar, bod newidiadau mewn bywyd a sefyllfa yn gallu bod yn anodd delio â nhw os na chewch chi'r cyngor cywir o'r cychwyn cynta.***

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Amlygodd adroddiad CPC 'Dim Drws Anghywir – i ba raddau rydyn ni'n llwyddo?' y rhwystrau lluosog mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gefnogaeth, amserau aros hir, a chael eu cyfeirio at wasanaethau amgen.[62]

> ***Dylai pobl ifanc fod yn ganolog i bob gwasanaeth cefnogi ac ni ddylai fod rhwystrau i atal pobl ifanc rhag derbyn y gefnogaeth mae arnyn nhw ei angen ac y maen nhw'n ei haeddu.***

Person Ifanc, Cymru

> ***Dylech chi fedru mynd atyn nhw ac maen nhw'n helpu chi. Ddylech chi ddim cael eich anfon i ffwrdd i ddod o hyd i'r holl wasanaethau gwahanol eich hunan.***

Person Ifanc, Cymru

Rhaid parhau i ystyried effaith hirdymor pandemig Covid-19, gan fod plant a phobl ifanc yn sôn am sut mae'r cyfnod yma wedi effeithio ar eu llesiant meddyliol.

> ***Rwy'n credu bod angen mwy o gefnogaeth ar blant a phobl ifanc ar gyfer eu hiechyd meddwl, yn enwedig yng nghyswllt y cyfnod clo, gan mod i'n gwybod bod llawer o bobl yn cael trafferth ymdopi â'r ysgol a gorbryder ar ôl cael eu hynysu.***

[62] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/02/No-Wrong-Door-Report-February-2022.pdf

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Cyhoeddodd Gogledd Iwerddon astudiaeth gyntaf ar Amlygrwydd Llesiant Ieuenctid yn 2020, a chanfod bod gan 1 o bob 8 plentyn a pherson ifanc yng Ngogledd Iwerddon anhwylder emosiynol megis gorbryder neu iselder. Cadarnhaodd hefyd fod cyfraddau problemau iechyd meddwl cyffredin 25% yn uwch yng Ngogledd Iwerddon nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.[63] Mae pobl ifanc yn amlygu nad yw natur anorfodol y Fframwaith Iechyd a Llesiant Emosiynol yn cyflawni anghenion pobl ifanc. Argymhelliad Panel Ieuenctid NICCY i Banel yr Adolygiad Addysg Annibynnol oedd y dylid nodi elfennau gorfodol y cwricwlwm gyda chefnogaeth pobl ifanc, ac mewn ymgynghoriad â nhw.

Mae gan effaith hirdymor y pandemig ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc botensial i fod yn sylweddol, yn enwedig os na fydd cefnogaeth ac ymyrraeth priodol yn cael eu darparu, ac mae angen monitro hynny'n barhaus.[64]

***Roedd fy iechyd meddwl wedi gwaethygu a sut roeddwn i'n edrych yn gorfforol wedi newid, felly roeddwn i'n poeni'n bennaf y byddai eraill yn fy ngweld i mewn ffyrdd negyddol ar ôl peidio â'u gweld nhw ers dros 6 mis.***

Person Ifanc, YLTS, Gogledd Iwerddon

***Rydw i wedi bod yn teimlo'n ynysig, ac eto'n pryderu am ddal y feirws – mae wedi cael effaith negyddol arna i. Mae wedi bod yn anodd gorfod aros mewn yn barhaus, ac yna wrth fynd i'r ysgol, rydw i'n pryderu rhag ofn mod i'n dal y feirws, felly mae'n sefyllfa lle rwy'n methu ennill.***

Person Ifanc, YLTS, Gogledd Iwerddon

Mae'r rôl arweiniol mae plant wedi cael eu gorfodi i'w chyflawni o ran cyfiawnder hinsawdd, eco-bryder, a phoeni am ddiffyg gweithredu amgylcheddol yn cael effaith niweidiol ar iechyd meddwl plant.

***Rwy'n gwybod bod llawer o blant yn teimlo'n eithriadol o gryf am hyn, ac mae'n niweidio'u hiechyd meddwl.***

Ymgynghorydd Ifanc CYPCS, yr Alban

63 https://hscboard.hscni.net/our-work/social-care-and-children/youth-wellbeing-prevalence-survey-2020/
64 https://www.niccy.org/media/3882/niccy-covid-report-main-report-final-aug-21.pdf

***Mae pawb ohonon ni mewn sefyllfa ddiymadferth lle does neb yn gwrando arnon ni. Rydyn ni'n gwbl ddi-rym, ac mae'n achosi straen mawr i lawer.***

Ymgynghorydd Ifanc CYPCS, yr Alban

**Rhestrau Aros Iechyd**

Ers amser hir, bu gan Ogledd Iwerddon rai o'r amserau aros hiraf ym maes iechyd o blith holl ranbarthau'r Deyrnas Unedig, ac mae hynny'n effeithio'n fawr ar blant, ond mae hyd a lled yr aros a pha wasanaethau iechyd plant sy'n wynebu'r effaith fwyaf wedi bod yn llai clir.

Mae rhai plant a phobl ifanc sydd â sgoliosis yn profi poen ac anghysur parhaus, sy'n gallu cael effaith o ganlyniad ar eu llesiant emosiynol a'u hiechyd meddwl. Soniodd plant a phobl ifanc am deimlo'n ofnus ac mewn trallod wrth orfod aros am driniaeth neu lawdriniaeth, heb wybod beth i'w ddisgwyl. Soniodd eraill am hwyliau oedd yn amrywio'n fawr, cael trafferth gyda delwedd eu corff, ac ynysu eu hunain oddi wrth eu cyfoedion.[65]

***Roeddwn i mewn poen annioddefol, yn fy ysgwyddau, fy nghluniau a'm stumog. Roedd rhaid i fi gymryd diwrnodau allan o'r ysgol – fe gollais i lawer o amser ysgol. Roeddwn i wastod yn cymryd poenladdwyr oherwydd y boen. Roeddwn i'n cael trafferth gyda hwyliau amrywiol a delwedd fy nghorff; roeddwn i'n denau iawn bryd hynny. Dyna oedd rhan waethaf y daith.***

Person Ifanc â Sgoliosis, Gogledd Iwerddon

Roedden nhw hefyd yn teimlo na ddylai'r bobl ifanc gael eu gadael i godi hyn gydag athrawon, ac y dylai'r timau clinigol sy'n ymwneud â gofal plentyn siarad â'r ysgol am anghenion pob plentyn.

***Roedd rhaid i fi ddweud wrth yr athrawon fy hunan, wnaeth yr NHS ddim cysylltu â'r athrawon.***

Person Ifanc â Sgoliosis, Gogledd Iwerddon

**Plant sy'n byw gyda chyflyrau iechyd gydol oes**

[65] https://www.niccy.org/media/3976/more-than-a-number-child-health-waiting-lists-in-ni-final-19-october-2021.pdf

Mae plant sy'n byw gyda chyflyrau iechyd gydol oes yn yr Alban yn wynebu llawer o anghydraddoldeb strwythurol sy'n effeithio ar eu gallu i fwynhau eu hawliau. Ymhlith yr enghreifftiau mae awdurdodau lleol sydd ddim yn rhoi cefnogaeth ddigonol nac yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol ynghylch asesu a chefnogaeth. Weithiau mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu hamddifadu o'u hawliau sylfaenol i gael addysg.

> ***Rydych chi naill ai'n cael athrawon unigol sy'n wych... ond rydych chi'n troi at arweinwyr neu'r tîm uwch-reoli a does ganddyn nhw ddim syniad, ac mae'r cyflyrau sydd gennych chi'n codi ofn arnyn nhw. Dydych chi ddim beth maen nhw'n disgwyl – rydych chi'n niwronodweddiadol ac yn abl o ran corff.***

Person Ifanc, yr Alban

O dan y Gyfraith yng Nghymru, dylai plant sydd angen aros yn yr ysbyty neu leoliadau gofal iechyd eraill gael eu cefnogi i ddysgu os ydyn nhw'n ddigon iach i wneud hynny. Mae pryderon nad yw pob plentyn yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu yn ymarferol wrth aros yn yr ysbyty. Ar hyn o bryd mae Comisiynydd Plant Cymru yn gweithio ar brosiect i gasglu barn a phrofiadau plant a phobl ifanc a deall ymhellach a ydyn nhw'n gallu cael mynediad i'w hawl i gael addysg yn y lleoliadau hyn.

**Tlodi**

Mae tlodi'n effeithio ar blentyn ar hyd eu hoes, yn eu haddysg, eu dyfodol, eu hastudiaethau, eu hiechyd, eu cyflogaeth, a'u cyfleoedd i'r dyfodol. Mae'r argyfwng costau byw, yn dilyn ymlaen o argyfwng Covid, yn golygu na fu cost nwyddau erioed mor ddrud i blant, pobl ifanc a'u rhieni. Mae'r cynnydd hwn mewn costau byw wedi rhoi pwysau aruthrol ar eu rhieni i fforddio eitemau beunyddiol, a bwyd ac ynni yw'r prif bryderon. Mae pobl ifanc wedi sôn am effaith cyni.

> ***…mwy o gydnabyddiaeth o effaith cyni ar blant a thrafodaeth ar hynny.***

Person Ifanc, Cymru

Mae adroddiad diweddar gan *Yorkshire Building Society*, 'Inflation Nation' (Mai '22) yn amlygu bod 90% o bobl ifanc 11-18 oed yn y Deyrnas Unedig yn ymwybodol o'r argyfwng costau byw, a bod 60% ohonyn nhw'n pryderu bod eu rhieni neu eu gwarcheidwaid heb ddigon o arian i wneud y pethau maen nhw eisiau neu gael y pethau maen nhw angen. Roedd 25% hefyd yn ymwybodol o rieni'n torri lawr ar nwyddau bwyd neu danwydd, ac

ychwanegodd 75% fod eu rhieni neu eu gwarcheidwaid wedi sôn am yr angen i dorri nôl ar rai pethau i arbed arian.[66]

> ***Y gwir amdani yw ein bod ni ddim mewn argyfwng costau byw, rydyn ni mewn argyfwng cost goroesi.***

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

> ***…wrth i brisiau godi a chwyddiant gynyddu, dyw e ddim yn deg.***

Ymgynghorydd Ifanc CYPCS, yr Alban

Yng Ngogledd Iwerddon, bu diffyg cynnydd o ran taclo tlodi plant. Er bod prosesau wedi cael eu rhoi ar waith ers *New Decade, New Approach* o ran adolygiad o'r pecyn lliniaru, a datblygu Strategaeth Gwrthdlodi, nid yw'r naill na'r llall o'r rhain wedi cael eu cyflawni.

Er bod angen camau pendant i gefnogi'r teuluoedd tlotaf i ddod drwy'r argyfwng hwn yn y tymor byr, mae'n hanfodol bod y camau gweithredu hynny'n rhan o strategaeth fwy hirdymor i godi teuluoedd allan o dlodi. Bydd hynny'n gofyn bod tlodi plant yn cael blaenoriaeth gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, a bod cyllid sylweddol yn cael ei ddyrannu.

Wrth siarad â Gwasanaeth Ieuenctid Awdurdod Addysg Gogledd Iwerddon (EAYS), roedd pobl ifanc yn cydnabod bod ansicrwydd bwyd yn dod yn fater amlycach, a nododd rhai pobl ifanc fod cynnydd yn y banciau bwyd yn eu hardal leol. Dywedodd un person ifanc:

> ***Rwy'n cofio mynd i'r ysgol heb frecwast a llwgu tan amser cinio. Roedd yn anodd dros ben canolbwyntio.***

Person Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

Thema gyffredin mewn digwyddiadau ymgysylltu oedd effeithiau negyddol tlodi ar iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol plentyn. Roedd y bobl ifanc yn ymwybodol bod tyfu i fyny mewn tlodi wedi golygu eu bod yn ynysig ac ar y cyrion, ac felly'n methu cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'u cyfoedion.

> ***Mae pobl ifanc o gefndir difreintiedig yn gorfod***

[66] 'Inflation Nation' (Mai '22)

***tyfu i fyny'n rhy gyflym ac maen nhw'n methu mwynhau eu hunain fel dylai pobl ifanc.***

Person Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

Hefyd, mae plant a phobl ifanc yn dweud bod tyfu i fyny mewn tlodi ac anfantais yn arwain at rywfaint o fwlio. Fe wnaethon nhw amlygu bod pobl ifanc yn cael eu bwlio oherwydd sut maen nhw'n edrych neu oherwydd hylendid gwael sy'n arwain at ddiffyg hyder a hunan-barch. Gall hynny yn ei dro arwain at ddioddefwyr yn cael eu hynysu a'u gwthio i'r cyrion, ac mewn rhai achosion, yn gwrthod mynychu'r ysgol neu glybiau ieuenctid oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â hyn.[67]

***Nid dim ond galw enwau yw e, mae na sylwadau dan din a phawb yn chwerthin amdanyn nhw. Mae'n rhaid bod e'n anodd gwrando ar hynny bob dydd. Rai dyddiau fydden nhw ddim yn troi lan.*** ”

Person Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

Mae plant a phobl ifanc yn teimlo bod angen iddyn nhw gydymffurfio â gofynion cymdeithas a chael yr holl bethau braf sydd gan bobl eraill, fel dillad, sgidiau a ffonau. Cyfeiriwyd at rai pobl ifanc oedd yn cael eu herlid oherwydd bod eu teulu'n methu fforddio'r dillad, y trenyrs, y ffonau neu'r gêmau fideo diweddaraf. Nododd un person ifanc fod rhaid iddo wisgo hen wisg ysgol ei frawd hŷn achos bod ei deulu'n methu fforddio gwisg newydd, a bod hynny'n brofiad trawmatig iddo fe. Esboniodd:

“ ***Roedd yn teimlo fel bod yr sarhad yn mynd ymlaen am fisoedd. Roedd yn anodd delio ag e. Doedd gen i neb gallwn i wir siarad â nhw.*** ”

Person Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

Amlygodd ymgynghorwyr ifanc CYPCS fod stigma a stereoteipio yn broblem fawr i blant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi.[68]

“ “ ***Mae'n cyfyngu ar eu potensial, fyddan nhw ddim yn gallu byw eu bywyd gorau.*** ”

Ymgynghorydd Ifanc CYPCS, yr Alban

---

[67] Adroddiad Ymgynghori EAYS ar gyfer Strategaeth Gwrthdlodi DfC (Mai 2021)
[68] Ymgynghoriad ymgynghorwyr ifanc CYPCS ar yr ymateb i Adroddiad yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol, Mawrth 2022

Mae plant sy'n profi tlodi yn wynebu rhwystrau dyw eraill ddim yn eu hystyried, megis costau teithio yn ôl ac ymlaen yng nghyswllt addysg.

***"Os ydych chi'n tyfu i fyny mewn ardal ddifreintiedig, heb fynediad at arian, byddwch chi'n methu fforddio talu am drafnidiaeth na chael mynediad at gyfleoedd am swyddi, na chyfleoedd yn gyffredinol."***

Ymgynghorydd Ifanc CYPCS, yr Alban

Yn eu cyngor ar gyfer Cynllun Cyflawni Llywodraeth yr Alban ar gyfer Taclo Tlodi Plant, dywedodd plant a phobl ifanc wrth y Comisiwn Tlodi ac Anghydraddoldeb y byddai darparu prydau ysgol am ddim yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.[69] Fodd bynnag, roedd teimlad bod safon y bwyd a maint y dogn wedi gostwng.

***"Mae safon y bwyd wedi gostwng yn sylweddol o'r adeg pan ddechreuais i yn y cynradd i'r adeg pan orffennais i yn yr uwchradd. Nawr rydyn ni wedi dysgu dylen ni fynd allan i gael cinio. Mae'n rhatach, mae safon y bwyd yn well, ac mae mwy o fwyd."***

Person Ifanc, yr Alban

Sonion nhw hefyd am annhegwch tlodi.

***"Pan fydda i'n meddwl am dlodi, bydda i'n meddwl am anghydraddoldeb.<br>Dyw e ddim yn deg a dyw e ddim yn iawn."***

Person Ifanc, yr Alban

Barnwyd bod cyflwyno teithio am ddim ar y bws i bobl ifanc o dan 22 yn yr Alban, ar 31 Ionawr 2022, yn gam pwysig, er bod teimlad y gellid estyn hynny i drenau a thramiau, a bod problemau wrth gael gafael ar y cerdyn trafnidiaeth.

***"Mae angen i rai pobl ddal bws, yna trên, yna bws i'r ysgol. Dylai trafnidiaeth fod am ddim yn gyffredinol."***

Person Ifanc, yr Alban

[69] https://povertyinequality.scot/wp-content/uploads/2022/06/Poverty-and-Inequality-Commission-Child-Poverty-scrutiny-report-2021-2022.pdf

***Mae llawer o bobl yn cael trafferth sicrhau cerdyn. Pan glywodd fy ffrind, fe ddwedodd e, 'Teithio am ddim am y bws? Beth yw'r 'catch'?' A phan ddwedais i wrtho fe bod angen Pasbort neu Ddull Adnabod i gyflwyno cais, dywedodd e, 'Iawn, dyna'r 'catch'.'***

Person Ifanc, yr Alban

Mae plant a phobl ifanc ar draws Cymru a Gogledd Iwerddon hefyd wedi galw am drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc o dan 18. Maen nhw wedi codi pwysigrwydd trafnidiaeth gyhoeddus mewn perthynas â thlodi yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw ac mewn perthynas â chyflawni targedau Sero Net i ymateb i argyfwng yr hinsawdd.

***Dylai trafnidiaeth gyhoeddus fod yn fwy hygyrch – dydy'r bysus ddim fel dylen nhw fod o ran prisiau ac effeithlonrwydd.***

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Rydyn ni'n clywed yn gynyddol gan weithwyr proffesiynol eraill bod effaith yr argyfwng costau byw, i bob pwrpas, yn creu 'cyfnod clo arall' i blant a'u teuluoedd, gan eu bod yn methu fforddio defnyddio trafnidiaeth i gael mynediad at wasanaethau. Amlygodd adroddiad canfyddiadau Plant yng Nghymru ar eu 6ed Arolwg Blynyddol o Dlodi Plant a Theuluoedd (2022) enghreifftiau o blant yn methu mynd i apwyntiadau ysbyty oherwydd cost trafnidiaeth gyhoeddus.[70]

***Mae bysus a threnau yn ddrud, ac mae cysylltiadau mor bwysig ar gyfer gwaith a bywyd cymdeithasol.***

Person Ifanc, Canfyddiadau'r 6ed Arolwg Tlodi Blynyddol, Cymru

Mae rhyw 34% o blant a phobl ifanc Cymru yn byw mewn tlodi.[71] Yn arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru (2022), nododd ymarferwyr ei bod hi bellach yn "argyfwng" ar lawer o deuluoedd. Ymhlith yr enghreifftiau a gafwyd roedd plant yn gwisgo dillad ac esgidiau oedd yn rhy fach iddyn nhw, ac *"ychwanegu dŵr at laeth babi i wneud iddo bara'n hirach"*.[72]

---

[70] https://www.childreninwales.org.uk/application/files/6416/6487/3691/CIW_Poverty_report_2022_English.pdf
[71] Local-child-poverty-indicators-report-2022_FINAL.pdf (endchildpoverty.org.uk)
[72] CIW_Poverty_report_2022_English.pdf (childreninwales.org.uk)

Yn hydref 2022, gofynnodd Comisiynydd Plant Cymru farn 7,873 o blant a phobl ifanc ar ystod o faterion mewn arolwg cenedlaethol. Dywedodd 45% o blant 7-11 oed, a 26% o bobl ifanc 12-18 oed, eu bod yn poeni am gael digon i'w fwyta. Roedd bron dau draean (61%) o'r plant 7-11 oed yn poeni na fyddai gan eu teuluoedd ddigon o arian ar gyfer pethau angenrheidiol, fel yr oedd mwyafrif (52%) o'r plant 12-18 oed.[73]

***Peidio gwneud bwyd mor ddrud mewn ysgolion. Rwy'n gweld cymaint o blant yn gorfod bod yn llwglyd oherwydd bod dim arian ganddyn nhw.***

Person Ifanc, Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i'r holl fyfyrwyr oed cynradd erbyn 2024. Dechreuwyd cyflwyno hyn gyda disgyblion y derbyn ym mis Medi 2022.

Yng nghanfyddiadau'r arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd, amlygodd plant effaith tlodi ar iechyd meddwl, cynyddu pryder, straen a phoeni am rieni. Cyfeiriwyd yn aml hefyd at fwlio, ochr yn ochr â iechyd meddwl. Amlygodd plant a phobl ifanc yr angen am addysg i ddatblygu dealltwriaeth bellach o dlodi a'i effeithiau er mwyn creu amgylchedd mwy tosturiol, gyda mwy o ddealltwriaeth i'r rhai sy'n profi tlodi.

***Rwy'n credu dylai plant gael eu haddysgu am hyn ac am effaith bosibl tlodi yn ifanc. Rwy'n credu bydd hynny'n eu gwneud yn fwy meddwl agored yn y dyfodol, a gallai hynny stopio bwlio neu gyfyngu arno.***

Person Ifanc, Canfyddiadau 6ed Arolwg Tlodi Blynyddol Plant yng Nghymru, Cymru

***Fy mhrofiadau gwaethaf oedd athrawon yn fy ngorfodi i esbonio wrthyn nhw, o flaen fy nosbarthiadau, pam roeddwn i'n methu fforddio'r wisg ysgol gywir.***

Person Ifanc, Canfyddiadau 6ed Arolwg Tlodi Blynyddol Plant yng Nghymru, Cymru

Mae pobl ifanc yn pryderu fwyfwy am orfod gweithio i gynnal eu teuluoedd.

[73] https://www.childcomwales.org.uk/2022/11/children-worried-about-having-enough-to-eat/

***Pryder gorfod gweithio i helpu i gynnal y teulu.***

Person Ifanc, Canfyddiadau 6ed Arolwg Tlodi Blynyddol Plant yng Nghymru, Cymru

Mae plant a phobl ifanc yn cydnabod y cysylltiad rhwng effaith tlodi bwyd a'u cyrhaeddiad addysgol.

***Mae meddwl yn barhaus am fwyd a methu canolbwyntio yn arwain at fethu arholiadau a methu cael addysg bellach, sy'n ychwanegu at y cylch dieflig.***

Person Ifanc, Canfyddiadau 6ed Arolwg Tlodi Blynyddol Plant yng Nghymru, Cymru

Mae plant sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig yr Alban yn wynebu ystod o rwystrau i ymgysylltu'n llawn mewn addysg ffurfiol – gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â thlodi, trawma, eithrio digidol a throseddu. Maen nhw'n aml yn cael eu hatal rhag cyflawni hyd eithaf eu potensial academaidd oherwydd y bwlch cyrhaeddiad cyson cysylltiedig â thlodi, sy'n rhan o'r bwlch llesiant mwy cyffredinol.[74]

***Dylech chi drin fi fel rhywun cyfartal. Os bydd ots gennych chi amdana i, bydd ots gen i amdanoch chithe.***

Person Ifanc, yr Alban

**Bod yn Gaeth**

Teimlai pobl ifanc fod angen gwasanaethau ailsefydlu cyffuriau, alcohol a smygu ar frys i blant a phobl ifanc oedd yn delio â phroblemau bod yn gaeth. Roedden nhw'n galw am ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a chefnogaeth mwy ystyrlon mewn ysgolion a chanolfannau ieuenctid i atal plant a phobl ifanc rhag ymddwyn mewn modd oedd yn golygu cymryd risgiau o'r fath.[75]

***Mae angen rhaglen ymwybyddiaeth arnon ni gyda phobl sydd wedi bod trwy hyn, rhywbeth i godi llond twll o ofn arnoch chi.***

Person Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

[74] https://includem.org/wp-content/uploads/2021/08/The-School-Experience-of-Young-People-Pre-and-During-Covid-19-Report-SPREAD-1.pdf

[75] Adroddiad Ymgynghori EAYS ar Gynlluniau Cyflawni'r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc 2021-2024

**Iechyd Amgylcheddol**
O fis Hydref 2020 i fis Mawrth 2021, bu dros 100 o aelodau o Senedd y Plant (MCPs) yn cyfranogi yng Nghynulliad yr Hinsawdd yn yr Alban. Hwn oedd y cynulliad dinasyddion cyntaf ar yr hinsawdd i gynnwys plant o dan 16 oed.

> ***"Mae gennym ni hawl i dyfu i fyny mewn amgylchedd iach, felly mae'n wirioneddol bwysig bod plant wedi cael eu cynnwys."***

Ymchwilydd Hinsawdd MCP, yr Alban

Cyflwynwyd 41 Galwad i Weithredu yr MCP ynghylch sut dylai'r Alban fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd yn Senedd yr Alban fel rhan o adroddiad llawn ac argymhellion Cynulliad Hinsawdd yr Alban.[76]

> ***"Fy hoff Alwad i Weithredu i yw diwrnod cenedlaethol plannu coed achos bod coed yn sugno llwyth o garbon i mewn ac yn helpu anifeiliaid a'r ecosystem, ac mae angen i ni ofalu am anifeiliaid a'r blaned."***

Ymchwilydd Hinsawdd MCP, yr Alban

Bu plant oedd yn rhan o Gynulliad yr Hinsawdd hefyd yn cwrdd â llunwyr penderfyniadau rhyngwladol yn ystod GLOBE International a COP26 i drafod eu profiadau ac amlygu Galwadau i Weithredu gan blant yng nghyswllt taclo argyfwng yr hinsawdd.

> ***"Fy hoff beth i am fod yn rhan o hyn oedd gwybod bod ots gan bobl a'u bod nhw eisiau clywed beth oedd gen i i'w ddweud, felly roedd yn gwneud i fi deimlo bod pobl eisiau gwybod fy marn fel plentyn sydd wedi tyfu i fyny ar ynys."***

Ymchwilydd Hinsawdd MCP, yr Alban

> ***"Rwy'n rhyw deimlo bod y cysylltiad rhwng plant ac oedolion yn gallu golygu llawer pan fydd oedolion yn gwrando ar blant."***

Ymchwilydd Hinsawdd MCP, yr Alban

---

[76] https://www.childrensparliament.org.uk/wp-content/uploads/Childrens-Parliament_Climate_Assembly_2021.pdf

Fel rhan o brosiect cyfranogiad blynyddol ENYA (Rhwydwaith Ymgynghorwyr Ifanc Ewrop) 2022, bu swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn gweithio gydag 16 aelod o'u Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc ar thema cyfiawnder hinsawdd. Bu'r grŵp yn trafod effaith y Newid yn yr Hinsawdd ar hawliau plant, gyda ffocws ar weithredu ynghylch yr hinsawdd, cyfranogiad, defnydd o adnoddau ac ôl troed carbon. Buon nhw'n datblygu argymhellion polisi a gyflwynwyd gan ddau gynrychiolydd ieuenctid yn fforwm ENYA yng Ngwlad y Basg.

Fel rhan o hyn, mynegodd pobl ifanc (o bob rhan o Ewrop, gan gynnwys Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban) eu pryderon ynghylch ailgylchu, lleihau plastig ac ynni adnewyddadwy.

***"Rwy'n credu bod materion amgylcheddol yn bwysig iawn achos does dim dyfodol i blant os nad oes planed iddyn nhw fyw arni (felly ffocws ar addysgu plant am faterion o'r fath yn ifanc)."***

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Mae plant wedi mynegi pryderon ynghylch 'pryderu am yr hinsawdd'. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun ymgysylltu, 'Cydweithio i Gyrraedd Sero Net' (2022), sy'n cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc ar ffurf addunedau.

Er gwaethaf ymgyngoriadau diweddar ar y Strategaeth Twf Gwyrdd[77], mae pobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon wedi mynegi pryderon ynghylch sicrhau bod y cwricwlwm ysgol yn cyflawni'r angen am addysgu pobl ifanc ynghylch materion amgylcheddol. Maen nhw hefyd yn pryderu ynghylch gwyrddgalchu, mynediad at wybodaeth ddibynadwy a phriodol, tryloywder y llywodraeth, ac yn hanfodol, cyfranogiad mwy ystyrlon gan blant a phobl ifanc.

***"Gwneud yn siŵr bod holl fentrau'r llywodraeth yn gwneud beth maen nhw'n dweud ac yn cael effaith go iawn."***

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

***"Dylai fod sianel benodol i siarad yn uniongyrchol â llunwyr penderfyniadau, oherwydd bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio fwyaf ar blant a phobl ifanc."***

[77] Draft Green Growth Strategy, DEARA, 2021

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

**"Dylid gwneud mwy o ymchwil ar fanteision/beryglon ynni niwclear fel dewis amgen cynaliadwy, i sicrhau bod hwn yn ddewis addas a bod y manteision yn gorbwyso'r risgiau."**

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

**Effeithiau Iechyd Covid Hir**

Rydyn ni'n gwybod bod pandemig Covid wedi cael effaith sylweddol ar fywydau pob plentyn, eu profiad gartref, a'u mynediad i'r ysgol a chwarae. Mae adroddiad Gwladwriaeth y Deyrnas Unedig yn dweud bod ymdrechion sylweddol yn parhau er mwyn deall a lliniaru effeithiau niweidiol y pandemig ar blant, yn arbennig y rhai y nodwyd eu bod yn agored i niwed. Ond nid yw'r adroddiad yn cyfeirio at effaith Covid hir.

Defnyddiwyd y term Covid hir i ddisgrifio natur gymhleth, hirhoedlog Covid-19 fel y'i profwyd gan nifer cynyddol o unigolion, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc. Mae gwaith ymchwil am Covid hir yn dal i ddatblygu wrth i fwy o hanesion am gleifion a'u profiadau bywyd ddod i'r amlwg.

Nid oes digon o ddealltwriaeth gyhoeddus o sut brofiad yw Covid hir, a'i effaith ar fywydau plant. Ymhlith y symptomau mae lludded, prinder anadl, cyhyrau'n gwynegu, poen yn y cymalau, 'niwl yn yr ymennydd', colli'r cof, methu canolbwyntio ac iselder. Oherwydd nad yw pobl yn deall Covid hir a'u bod yn methu 'gweld' y symptomau, mae'n anodd esbonio sut mae'n effeithio ar eich bywyd. Mae hynny'n cynnwys bod â ffrindiau a theulu sydd ddim yn deall.[78]

**"Ar ôl dros flwyddyn yn dost, mae'r teulu yn dal heb ddeall ac yn cynnig sylwadau ac awgrymiadau sy'n wir ddim yn helpu."**

Person Ifanc, yr Alban

Mae plant sy'n profi Covid hir yn dweud bod angen llwybrau triniaeth clir arnyn nhw sy'n parchu eu hawliau a'u llesiant. Mae angen i feddygon ddysgu am y cyflwr a sut i'w cefnogi.[79]

**"Rwy'n dymuno bod fy meddyg yn**

[78] COVID-19 for Children and Young People: What it's like to live with Long Covid - A Place in Childhood
[79] COVID-19 for Children and Young People: Long Covid Kids Manifesto Asks - A Place in Childhood

***gwybod sut rwy'n teimlo.***

Person Ifanc, yr Alban

***Rwy'n dymuno gallen i fod wedi gweld y meddyg yn gynharach, achos fe wnaeth y tabledi fy helpu. Roedd meddyg yr ysbyty yn garedig, ond doedd y meddyg lleol ddim eisiau helpu.***

Person Ifanc, yr Alban

Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo bod angen rhywbeth swyddogol arnyn nhw pan fydden nhw allan yn gyhoeddus, i brofi i eraill eu bod yn dost, fel laniard blodyn haul neu gerdyn arbennig, fel bod pobl yn parchu bod rheswm pam maen nhw'n defnyddio cyfleusterau neu seddau sydd fel arfer wedi'u cadw ar gyfer pobl ag anableddau.

***Rhywbeth yn cyfateb i laniard blodyn haul ar gyfer Covid Hir, neu'r un fath ag ar gyfer anableddau eraill. I helpu pobl eraill i ddeall bod gennych chi anabledd cudd.***

Person Ifanc, yr Alban

***Mae llawer o symptomau corfforol. Mae fy iechyd meddwl yn wael hefyd. Rydw i'n crio llawer. Y cyfan rydw i eisiau yw gwella. Does dim byd mae'r meddygon yn gwneud yn helpu...***

Benyw Ifanc sy'n profi Covid hir, Gogledd Iwerddon[80]

Teimlai pobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon y dylai'r llywodraeth roi sylw yn gyntaf ac yn bennaf i ddarparu mwy o gefnogaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, yn ogystal â chynyddu'r cyllid ar gyfer y sector cymunedol a gwirfoddol.[81]

***Does neb yn gwybod sut bydd hyn yn effeithio ar bobl yn y dyfodol…***

Person Ifanc, NIYF, Gogledd Iwerddon

[80] https://www.longcovidkids.org/post/a-teenager-s-experience-of-a-long-covid-clinic-in-northern-ireland
[81] Our Voices: Looking Beyond Borders, Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon, Chwefror 2022

*Mwy o ymchwil ar effaith COVID-19 hir.*

Person Ifanc, NIYF, Gogledd Iwerddon

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Grŵp Covid hir ymhlith Plant a Phobl Ifanc er mwyn datblygu ymateb i blant y mae Covid hir wedi effeithio arnyn nhw. Mae plant sy'n profi Covid hir wedi mynegi sut mae hynny wedi effeithio ar eu hiechyd, eu llesiant a'u haddysg.

***Ers cael Covid mae gen i ben tost yn barhaus, alla i ddim cysgu yn y nos, rydw i'n diodde o'r bendro, ac ers pum wythnos nawr, rydw i'n methu sefyll na cherdded, ac mae angen cadair olwyn arna i i fynd o gwmpas […] rydw i'n teimlo'n unig yn y nos oherwydd mod i'n effro, a does gen i ddim llawer o lais, felly alla i ddim galw pan fydd angen help arna i.***

Person ifanc sy'n profi Covid hir, Cymru[82]

**Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) – Ymyrraedd Gynnar:**
Mae'n hanfodol bod anghenion plant a phobl ifanc sydd ag AAA yn cael eu diwallu mor gynnar â phosibl er mwyn gwella'u canlyniadau addysg a'u cyfleoedd yn yr ysgol. Mae hefyd yn bwysig bod gan ysgolion adnoddau a strategaethau ar waith i ganiatáu i bob plentyn a pherson ifanc gyrraedd eu potensial.

Nododd un person ifanc ei fod wedi derbyn ymyriadau cynnar i gefnogi ei ddyslecsia yn yr ysgol, a'r effaith gafodd hynny.[83]

***...gwahaniaeth mawr yn fy mywyd ysgol.***

Person Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

Myfyriodd person ifanc arall ar sut roedd diagnosis hwyr o awtistiaeth wedi effeithio ar ddysgu ei frawd a'i brofiad cyffredinol yn yr ysgol.

***…tase'r diagnosis wedi cael ei gydnabod yn gynt,***

[82] Long Covid: Girl, 10, struggles to walk and talk - BBC News
[83] Ymgynghoriad EAYS ar Adolygiad SEND mewn Ysgolion (2021)

***buasai ei brofiad yn yr ysgol yn llawer gwell.***

Person Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

Teimlai'r bobl ifanc fod angen mwy o hyfforddiant ar staff ysgolion, a gwell dealltwriaeth o'r materion a'r heriau mae plant a phobl ifanc ag AAA yn eu hwynebu.

***Mae'r staff yn disgwyl i ni ddysgu beth maen nhw'n ei ddysgu i ni, ond dydyn nhw ddim yn cymryd amser i ddysgu'r ffordd orau o'n haddysgu.***

Person Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

Dylai hyfforddiant gwmpasu helpu'r broses o ganfod plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth, yn ogystal â darparu'r gefnogaeth gywir i bob plentyn neu berson ifanc, yn dibynnu ar yr anghenion maen nhw'n eu cyflwyno.

***Nid yw dull generig yn briodol; dyw anghenion pawb ohonon ni ddim yr un fath, ac mae'n galw am ymateb mwy unigol.***

Person Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

## 8. Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol

**Anghydraddoldebau Addysgol**

Mae anghydraddoldebau amlwg ar draws y tair awdurdodaeth o ran cyrhaeddiad ym myd addysg. Mae grwpiau penodol o blant a phobl ifanc yn llawer mwy tebygol o wneud yn well neu'n waeth ym myd addysg, yn dibynnu ar eu priodweddau a/neu eu hamgylchiadau. Mae'r Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon wedi nodi grwpiau o blant sy'n wynebu risg arbennig o dangyflawni, gan gynnwys plant Teithwyr; plant o leiafrifoedd ethnig; plant ag anghenion ychwanegol, a phlant o gefndir difreintiedig.[84]

Dywedodd ceiswyr lloches a ffoaduriaid ifanc oedd heb eu hebrwng yn yr Alban fod angen cynnig addysg oedd yn deg, yn gyson ac yn hyblyg iddyn nhw. Gallai gwersi Saesneg fod yn fwy ymarferol, ac fe allen nhw ddysgu sgiliau eraill wrth ddysgu Saesneg. Er enghraifft,

[84] Atodiad 1, Dogfen Blaenoriaethau Ymgynghori â Phobl Ifanc, yr Adran Addysg.

teimlai rhai pobl ifanc mai'r ffordd orau o ddysgu oedd trwy brofiad gwaith. Hefyd, byddai dysgu ochr yn ochr â phobl ifanc eraill yn eu helpu i integreiddio.[85]

***"Cyrhaeddodd fy nghorff yr Alban, ond roeddwn i'n teimlo mod i wedi colli fy meddwl ar y ffordd. Mae angen i bobl ifanc fel fi ddysgu, cael hwyl a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Rwy'n credu byddwn i'n gofyn iddi hi (Prif Weinidog yr Alban) all hi wneud e'n haws i geiswyr lloches astudio hefyd. Mae angen yr addysg arnon ni i adeiladu ein dyfodol a chyrraedd ein nodau."***

Ceisiwr Lloches Ifanc, yr Alban

Yng Ngogledd Iwerddon, mae bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol yn amlwg ar draws ystod o grwpiau, ond gwelir y gwahaniaethau mwyaf trawiadol rhwng cyrhaeddiad TGAU y rhai sydd â hawl i dderbyn Prydau Ysgol am ddim (FMSE) a'r rhai sydd heb yr hawl honno. Yn 2020-21, dim ond 59.8 y cant o ymadawyr ysgol oedd yn cael prydau ysgol am ddim gyflawnodd o leiaf 5 TGAU, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, o gymharu â chyfradd cyrhaeddiad o 83.8 y cant ymhlith ymadawyr ysgol heb hawl i gael prydau ysgol am ddim.[86] Mae'n werth nodi bod y bwlch cyrhaeddiad hwn heb newid yn sylweddol yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, sy'n dangos bod angen llawer mwy o waith i sicrhau bod pob person ifanc yn profi eu hawl i gael addysg effeithiol.

***"Mae Erthygl 2 (o CCUHP) yn datgan bod y Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn yn ddiwahân, beth bynnag yw eu hethnigrwydd, eu rhywedd, eu crefydd, eu hiaith, eu galluoedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag maen nhw'n ei feddwl neu'n ei ddweud, beth bynnag yw eu cefndir teuluol... ydy'r gwahanol fathau o addysg yng Ngogledd Iwerddon yr un mor hygyrch i bob plentyn a grŵp o blant."***

Panel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon[87]

Yn yr un modd yng Nghymru, adroddir am fylchau mewn cyrhaeddiad addysgol, gyda phlant o gefndiroedd sosio-economaidd difreintiedig ar gyfartaledd 22-23 mis y tu ôl i'w cyfoedion ar adeg sefyll arholiadau TGAU. Adroddwyd am anghydraddoldebau addysgol hefyd yn achos plant ag AAA ac o rai cefndiroedd ethnig lleiafrifol.

---

85 https://www.aberlour.org.uk/refugee-week-2022-listening-to-young-peoples-voices/
86 Ffeithlun cymwysterau a chyrchfannau ymadawyr ysgol Gogledd Iwerddon 2020-21.PDF (education-ni.gov.uk)
87 https://www.niccy.org/media/4139/niccy-youth-panel-review-of-education-report.pdf

Amlygodd plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yr angen am fwy o ddealltwriaeth gan staff addysgu i helpu i hybu profiadau addysg teg.[88]

> ***"Pryd bynnag byddwn i'n cael fy llethu yn yr ysgol, roeddwn i'n teimlo mod i'n methu gwneud dim am y peth"***

Person Ifanc ag ADY, Cymru

> ***"Rydw i wedi cael dweud y drefn am stimio a dŵdlo mwy o weithiau na galla i gyfri. Dydyn nhw ddim yn gwrando pan fydda i'n dweud wrthyn nhw bod angen i mi wneud hynny i fedru bod yn weithredol."***

Person Ifanc ag ADY, Cymru

**Prawf Trosglwyddo**

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Comisiynydd Plant yn aml wedi dweud bod y prawf trosglwyddo yn annheg, ac yn gwahaniaethu yn erbyn plant o deuluoedd tlotach, rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig a rhai sy'n profi anawsterau eraill.

Mae bodolaeth barhaus y prawf trosglwyddo a'r tablau cynghrair academaidd cysylltiedig wedi golygu bod rhieni, a'r gymdeithas ehangach, yn gweld ysgolion fel rhai 'da' (gramadeg) neu 'wael' (y lleill). Gan fod diffyg ffocws galwedigaethol yn y cwricwlwm, mae plant yn gallu cael eu labelu'n fethiannau yn 11 oed.[89] Mae pobl ifanc yn ymwybodol o hyn ac yn ei gario gyda nhw ar hyd eu taith addysgol.

> ***"Peth mawr i fi ar ôl y cynradd yw'r sefyllfa o ran ysgolion gramadeg ac mae'n rhaid rhoi sylw i'r holl anghydraddoldeb sy'n bodoli."***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

> ***"Mae'r system ddetholus yn gwneud llawer o niwed. Sut bynnag maen nhw'n ceisio edrych arno fe, os nad ydych chi wedi cael eich 11+ (prawf trosglwyddo), rydych chi wedi methu. Ac mae llawer o oedolion rydw i wedi siarad â nhw wedi teimlo'n fethiant o safbwynt sefyll yr 11+."***

[88] Inequalities in GCSE results across England and Wales - Education Policy Institute (epi.org.uk)
[89] Tystiolaeth i'r Panel Arbenigol ar Dangyflawniad Addysgol ac Anfantais, Include Youth (2020)

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

Bu un person ifanc yn herio'r llunwyr penderfyniadau:

***"Mae gennym ni system ddetholus o hyd, ac os ydych chi am i hynny barhau, dydych chi ddim yn ystyried bod pobl ifanc yn dioddef yn sgîl hynny…."***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

**Addysg yn ystod Covid**

Cafodd dysgu gartref yn ystod y pandemig effaith gymysg ar blant a phobl ifanc, gyda rhai yn sôn am effeithiau cadarnhaol, ond llawer o rai eraill yn profi effeithiau negyddol. Y plant hynny oedd yn wynebu rhwystrau i addysg yn flaenorol sydd wedi dioddef yr effaith fwyaf niweidiol yn sgîl cau ysgolion. Nid oedd pob plentyn yn gallu cael mynediad at ddysgu mewn modd hygyrch nac yn y dull mwyaf priodol. Nid oedd pob plentyn chwaith yn gallu cael mynediad at y dyfeisiau neu'r cysylltedd, yn ogystal â'r lle yn eu cartrefi, sy'n ofynnol i hwyluso dysgu effeithiol o bell. Ar y llaw arall, soniodd rhai pobl ifanc am fanteision dysgu gartref.

***"Mae dysgu gartref yn anodd pan yw eich rhieni'n weithwyr hanfodol a/neu dydyn nhw ddim yn siarad Saesneg yn dda iawn. Mae angen i fi ofalu am fy chwaer fach drwy'r dydd ac esbonio'r taflenni gwaith mae ei hathrawon wedi'u hanfon ati, ac mae'n anodd gwneud hynny wrth rannu un ddyfais rhwng pawb ohonon ni."***

Person Ifanc o Gymru

***"Mae fy mhennau tost oherwydd straen yn yr ysgol wedi lleihau yn ddramatig. Dydw i ddim yn teimlo'r un pwysau, ond rwy'n dal i wneud yr un gwaith, ac efallai mwy o waith na'r arfer. Rydw i wedi mwynhau gweithio gartref, ond bydda i'n mwynhau'r ysgol pan awn ni nôl."***

Person Ifanc o Gymru

***"Yn ystod y cyfnod o ddysgu ar-lein cafodd yr hawl i addysg" ei llesteirio i rai, ac achosodd yr anghysondeb technolegol rhwng***

***aelwydydd â chefndir sosio-economaidd gwahanol wahaniaeth yn safon yr addysg.***

Person Ifanc, NIYF, Gogledd Iwerddon [90]

Yn adroddiad NICCY 'A New and Better Normal' ar brofiadau plant a phobl ifanc o bandemig Covid-19, roedd pobl ifanc yn ymwybodol o effaith Covid yn eu haddysg.[91]

***Wel, gydag addysg mae wedi bod yn brofiad braidd yn anwadal. Mae fel si-sô os liciwch chi. Un funud rydyn ni yn yr ysgol, yna rydyn ni yn y cyfnod clo, felly rydyn ni allan o'r ysgol am rywbeth fel, rwy'n credu roedd yn bedwar neu bum mis. Yna rydyn ni nôl yn yr ysgol am dri neu bedwar mis eto, yna rydyn ni allan o'r ysgol ac yn ôl mewn cyfnod clo. Nawr rydyn ni nôl yn yr ysgol. Mae'n ddryslyd. Ac mewn gwirionedd mae wedi cael effaith negyddol dros ben ar fy ngwaith.***

Person Ifanc, MACS, Gogledd Iwerddon

***Gyda dysgu gartref dyw e ddim wedi bod mor hawdd cael cefnogaeth gan athro, sy'n anodd wrth ddysgu pethau newydd. (I) Anfon sylwadau at yr athro yn ystod y dosbarth, ond dim adborth ond ar ôl i'r dosbarth orffen. Does dim cefnogaeth amser go iawn ar gael.***

Person Ifanc, Cancer Fund for Children, Gogledd Iwerddon

Canfyddiad y bobl ifanc oedd bod y penderfyniad i ganslo arholiadau haf 2021, yn hytrach na lleihau lefel yr asesu, wedi cynhyrchu'r un gwaith, os nad mwy, â phetaen nhw wedi bod yn sefyll arholiadau ffurfiol.

***Rydyn ni'n dal i gael ein hasesu, rydw i ta beth, rydw i'n cael fy asesu fel byddwn i wedi gwneud llynedd, felly tasen ni'n cael yr un arholiadau, mae'r un peth, wel dydyn ni ddim yn gwneud arholiadau; dyna'r unig beth sydd wedi cael ei dorri nôl, ond mae'r gwaith cwrs yn union yr un fath.***

Person Ifanc, VOYPIC, Gogledd Iwerddon

---

90 Our Voices: Looking Beyond Borders, Fforwm Ieuenctid GI Chwefror 2022
91 https://www.niccy.org/media/3882/niccy-covid-report-main-report-final-aug-21.pdf

***Fuodd na erioed fwy o eironi wrth feddwl am ein hanfon ni nôl i'r ysgol ar gyfer ein hiechyd meddwl, na phan fu'r disgwyliadau hyn ynghylch arholiadau yn uchafbwynt i ddinistr iechyd meddwl pobl ifanc eleni!***

Aelod o Banel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

***Rwy'n credu hefyd bod gorfod gwneud asesiadau ac ansicrwydd beth oedd yn digwydd o ran TGAU wedi achosi llawer o straen, roeddwn i'n teimlo mod i wedi'u methu nhw cyn iddyn nhw ddechrau.***

Person Ifanc, YLTS, Gogledd Iwerddon

Roedd anhawster i gyrchu dyfeisiau digidol yn cael effaith ar ddysgu o bell.

***Felly ar hyn o bryd mae fy ngwaith yn pentyrru achos roeddwn i ar ei hôl hi yn y cyfnod clo oherwydd bod gen i ddim gliniadur. Felly allwn i ddim bod wedi gwneud unrhyw waith, a dylwn i nodi mai [y cwrs] roeddwn i'n gwneud oedd TGCh.***

Person Ifanc, MACS, Gogledd Iwerddon

***Mewn ffordd roeddwn i ychydig yn lwcus mewn gwirionedd achos roedd rhai pobl heb ddyfeisiau o gwbl. Roedd fy ngweithiwr cymdeithasol wedi gofyn i'r ysgol roi un i fi, neu dylwn i ddweud rhoi benthyg un i fi. Felly fe roeson nhw liniadur i fi, ac roeddwn i'n gallu gwneud e. Ond dyw rhai pobl ddim wir wedi gallu gwneud unrhyw waith o gwbl.***

Person Ifanc, MACS, Gogledd Iwerddon

Mae canfyddiadau'r arolwg 'Coronafeirws a Fi' yng Nghymru yn amlygu sut mae plant ag anableddau neu o leiafrifoedd ethnig wedi cael mwy o drafferth na'u cyfoedion yn ystod y cyfnod yma.[92] Roedd plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac o grwpiau ethnig lleiafrifol eraill yn fwy tebygol o deimlo'n unig ac yn llai diogel na'u cyfoedion.

***Pan fydda i'n eistedd lawr i wrando ar y newyddion gyda mam***

[92] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_EN.pdf

***mae'n frawychus clywed sut mae pobl yn marw o'r feirws, ac mae gwybod bod ysgolion yn Lloegr yn mynd i ailagor yn ei wneud yn fwy brawychus, achos rydw i'n meddwl byddwn ni'n mynd i'r ysgol hefyd. Rydw i'n teimlo dros mam a'r athrawon rhag ofn bydda i'n ei ddal e ac yn pasio fe mlaen i mam, sydd â iechyd gwael.***

Person Ifanc BME, Cymru

***"Achos y cyfnod clo, dim ond ar y ffôn rydw i'n cymdeithasu da pobl, siŵr o fod mwy o ngwlad fy hun, a dydw i ddim yn siarad cymaint o Saesneg ag o'r blaen. Felly bydd hynny'n broblem arall. Pan fydda i ddim wir yn gallu siarad Saesneg cystal ag o'r blaen, neu pan fydda i ddim yn teimlo digon o hyder, byddai hynny'n rhywbeth rydw i'n poeni amdano fe. Chi'n gwbod, pan fyddwn ni'n mynd nôl i fywyd normal, allwch chi ddim wir cyfathrebu da phobl fel o'r blaen, cystal ag o'r blaen os ych chi'n deall (beth) sy gen i?"***

Person Ifanc, MACS, Gogledd Iwerddon

Roedd plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o deimlo'n bryderus, yn drist ac yn anniogel, ac roedd rhai pobl ifanc yn pryderu am yr effaith bosibl gallen nhw ei chael ar siblingiaid agored i niwed.

***"Dylai fod llawer mwy o gefnogaeth i bobl sy'n fregus ond oedd heb gael llythyr i hunanynysu, a mwy o gefnogaeth i bob teulu ac i unigolion gyda bwyd, achos rydw i a mam a'm chwiorydd yn teimlo ein bod ni'n gorfod ymbil am fwyd a help."***

Person Ifanc

***"Mae gan fy mrawd bach broblemau meddygol, ac roedden nhw'n ofni beth fyddai'r effaith arno fe petai'r salwch yn dod i'n cartre. Roedden nhw'n pryderu amdanon ni i gyd, ond mae e gorff e'n methu brwydro yn erbyn haint. Doedden ni ddim wedi bod mewn cysylltiad â neb oedd ddim yn rhan o'r aelwyd, ac roedd ein holl fwyd etc yn cael ei ddosbarthu i'r garej, felly roedden nhw'n nerfus iawn."***

Person Ifanc, YLTS, Gogledd Iwerddon

Mae pobl ifanc yn pryderu am yr effaith bydd y pandemig a dysgu gartref yn ei chael ar eu hastudiaethau yn y dyfodol a'u rhagolygon cyflogaeth.

***"Mae pethau'n cael eu rhoi nôl mewn, ac mae disgwyl i chi wybod pethau ym mlwyddyn 12, er bod ni heb wneud nhw ym mlwyddyn 10/11 – dylen ni gadw fe yr un fath â llynedd, fel bod ni'n cael arholiadau ar beth rydyn ni wedi gwneud yn unig, achos wedyn mae gen i brifysgolion sy'n disgwyl graddau uchel."***

Aelod o Banel Ymgynghorol CPC, Cymru

***"Poeni – rydw i'n poeni bydd cyflogwyr yn y dyfodol ddim yn gweld y cymwysterau gaf fi yn yr un ffordd."***

Person Ifanc, Cymru

Mae plant wedi myfyrio ar rôl yr ysgol yn helpu i lunio'u hiechyd a'u llesiant, gan ystyried effaith y cyfnod yma allan o'r ysgol arnyn nhw.

***"Rydw i'n teimlo'n grac ac yn rhwystredig iawn bod bron blwyddyn o'm plentyndod wedi cael ei cholli. Rydw i wrth fy modd yn mynd i'r ysgol ac yn ffynnu yno, ac mae'r diffyg strwythur a threfn yn cael effaith wael arna i nawr. Rydw i wedi magu pwysau achos mod i ddim hyd yn oed yn gallu chwarae pêl droed, rhywbeth rwy'n dwlu arno. Rydw i'n gymdeithasol iawn, ond dydw i ddim wedi gweld ffrindiau ers misoedd, a does gen i ddim syniad pryd bydda i'n gweld nhw eto. Mae pob diwrnod yr un peth, ac rwy'n teimlo'n hollol anobeithiol, achos bod Llywodraeth Cymru yn cadw gohirio pryd gallwn ni fynd nôl i'r ysgol, a dyna rydw i eisiau gwneud fwy na dim, fel bod gen i reswm i godi bob dydd. Rydw i eisiau i hyn fod drosodd a dechrau byw fy mywyd eto."***

Person Ifanc, Cymru

***"Rydw i'n teimlo mai'r pethau anoddaf i bobl ifanc a phlant wynebu yn ystod y pandemig yw straen yr ysgol a disgwyl iddyn nhw gael graddau da a chwblhau gwaith ysgol gartref, lle does gan rai pobl ddim mynediad nac amser i gwblhau neu ddysgu eu hunain, oherwydd dylanwadau o'r tu***

***allan h.y. gofalu am siblingiaid iau etc. Rydw i'n teimlo bod angen i'r llywodraeth roi sylw i'r ffaith bod plant yn methu cael mynediad at yr adnoddau fyddai ar gael iddyn nhw yn yr ysgol, fel cyfrifiaduron, gwerslyfrau etc., fel bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gael addysg dda. Mae angen i hyn fod yn newid parhaol gan y llywodraeth, fel bod gan bob plentyn gyfrifiadur a'u hadnoddau eu hunain i wneud gwaith cartref, nid dim ond ateb tymor byr neu rywbeth ar fenthyg gan yr ysgol.***

Person Ifanc, YLTS, Gogledd Iwerddon

Rhaid parhau i ystyried anghydraddoldeb profiadau wrth flaengynllunio addysg.

**Effaith addysgol Covid Hir**
Mae plant sydd â Covid hir wedi treulio llawer o amser allan o'r ysgol. Pan ddychwelodd dysgu o bell yn gynnar yn 2021, fe wnaeth hynny helpu rhai ohonyn nhw i gynnal eu hymgysylltu, ac roedden nhw'n teimlo y gallai'r dull yma gynnig ffordd o gadw i fyny ar eu cyflymder eu hunain, gan fod canolbwyntio yn y dosbarth yn anodd pan fyddwch chi'n profi niwl yn yr ymennydd ac yn teimlo'n lluddedig. Mae rhai yn cael bod yr ysgol yn deall y sefyllfa'n eitha da, tra bod eraill yn teimlo nad yw'n gweithio'n dda o gwbl.[93]

***"Fe wnes i dreio mynd nôl i'r ysgol, ond roeddwn i'n teimlo'n sâl iawn drwy'r amser. Roedd gen i ben tost a bola tost, ac roeddwn i'n rhy flinedig i wneud unrhyw waith yn fy nosbarth. Fe wnaeth Mam drio helpu, ond roeddwn i'n cael bod yr ysgol yn rhy swnllyd ac yn rhy llachar, ac yn ormod i fi."***

Person Ifanc, yr Alban

Mae gwell dealltwriaeth o Covid hir a beth mae'n ei olygu i ddysgu plant yn bwysig. Gallai mwy o gyfleoedd i ddysgu mewn ffordd hyblyg gefnogi plant sy'n profi'r cyflwr.

***"Rhowch fwy o amser i ni wneud pethau. Taswn i'n gallu mynd â rhywfaint o waith adre. Ymlacio wrth i ni wneud y gwaith, hefyd gallen ni ofyn i riant helpu. Dydyn nhw ddim yn anfon llawer o waith adre."***

Person Ifanc, yr Alban

[93] COVID-19 for Children and Young People: Long Covid Kids Manifesto Asks - A Place in Childhood

***Mae angen i ysgolion beidio â'n cau ni allan trwy beidio dweud wrthyn ni beth mae pobl eraill yn gwneud. Ceisiwch gadw mewn cysylltiad yn fwy, a rhoi tasgau.***

Person Ifanc, yr Alban

Cafodd Covid hir effaith ddwys ar un person yng Ngogledd Iwerddon – fel mae ei mam yn dweud, "*Dri mis yn gynharach, cafodd (enw) 9 gradd A ac un A* ar lefel TGAU. Nawr mae hi'n methu ffurfio brawddeg syml.*"

Crynhodd un person ifanc yng Ngogledd Iwerddon eu profiad a'u meddyliau tymor hwy am fyw trwy Covid.[94]

***Mae'r effaith ar ein haddysg wedi bod yn ddrastig, ac mae'r llywodraeth wedi methu rhoi cefnogaeth a sicrwydd achos bod nhw wedi newid llu o benderfyniadau wnaethon nhw. Fe wnaeth hynny chwalu fy ymddiriedaeth yn y llywodraeth a'r parch oedd gen i atyn nhw, achos roedd yn amlwg bod dim syniad ganddyn nhw beth roedden nhw'n gwneud. Roedd eu holl benderfyniadau i weld yn rhai munud ola, ac roedden nhw'n cadw pobl yn y tywyllwch, oedd yn golygu bod pethau'n cronni yn eu pennau. Un o'r sefyllfaoedd effeithiodd arna i oedd pan ddywedodd Peter Weir (y Gweinidog Addysg ar y pryd) ein bod ni'n bendant yn gwneud arholiadau, ond yna fe newidiodd ei feddwl lai nag wythnos cyn fy arholiadau TGAU Saesneg a Mathemateg. Rydw i nawr wedi gorfod sefyll mwy na 4 arholiad ar gyfer pob pwnc. Mae hynny wedi ychwanegu cymaint o straen at fy mywyd. Hon oedd blwyddyn waethaf fy mywyd. Bues i hefyd yn brwydro llawer gyda fy iechyd meddwl, fel fy nghyfoedion. Oherwydd mod i wedi cael fy nghadw yn y tŷ mor hir, roeddwn i'n teimlo mod i wedi ymddieithrio o'm cymuned. Yn y diwedd arweiniodd hynny at orbryder cymdeithasol pan gawson ni fynd allan, ac mae hynny wedi rhoi fy mherthynas â phobl eraill dan straen aruthrol. Achos mod i'n eistedd tu mewn ar fy mhen fy hun drwy'r dydd, oherwydd bod fy rhieni'n gweithio i'r NHS, heblaw am fynd allan am dro unwaith y dydd, roedd gen i lawer o amser i feddwl. Roeddwn i ar y cyfryngau cymdeithasol am gyfran uchel o'r dydd, ac roedd hynny'n golygu mod i'n dod i gysylltiad â delweddau, cyrff a bywydau perffaith dylanwadwyr.***

---

[94] https://www.niccy.org/media/3882/niccy-covid-report-main-report-final-aug-21.pdf

***Roedd hynny'n gwneud i mi deimlo mod i ddim yn normal oherwydd mod i'n teimlo'n isel ac yn methu ymdopi â'r cyfnod clo. Roeddwn i'n cymharu fy mywyd a'm corff â'r bobl yma. O ganlyniad, fe fues i'n mynd am gyfnodau hir heb fwyta, a cholli 2½ stôn. Achos mod i mor flinedig a bod sut roeddwn i'n edrych yn codi cyfog arna i, fe dorrais i bob cysylltiad â'm ffrindiau ac ynysu fy hunan. O ganlyniad, bu'r teimladau yma'n cronni ac yn tyfu yn fy meddwl. Dyw'r llywodraeth ddim yn deall difrifoldeb y sefyllfa o ran iechyd meddwl arddegwyr. Dydw i ddim yn gwybod sut galla i wella o hyn.***

Person Ifanc, YLTS, Gogledd Iwerddon

**Llais Pobl Ifanc ym myd Addysg**

Roedd llawer o bobl ifanc yn ymwybodol eu bod yn rhan o ddiffyg democrataidd yn yr ystyr bod eu llais ddim yn cael ei glywed, nid yn unig yn y gymdeithas ehangach, ond hefyd yn amgylchedd yr ysgol. Er bod dealltwriaeth bod rhai enghreifftiau da o gyfranogiad pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau mewn ysgolion, yn y gymuned, a chydag asiantaethau statudol/adrannau'r llywodraeth, nid oes cysondeb yn y mecanweithiau cyfranogiad sy'n bodoli.

***“Dylai'r Adran Addysg greu Polisi Cyfranogiad Disgyblion, gydag adnoddau priodol i alluogi ysgolion i gefnogi myfyrwyr i sefydlu fforymau cyfranogiad/cynghorau ysgol.”***

Panel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon[95]

***“Mae angen llais ysgol dilys, oed-briodol i sicrhau bod ysgolion yn cyfathrebu'n well ac yn rhoi gwell eglurhad i bobl ifanc, a hefyd er mwyn i bobl ifanc fedru rhoi barn a syniadau.”***

Person Ifanc, YLTS, Gogledd Iwerddon

**Y Cwricwlwm Addysg**

Yng Nghymru, er bod teimlad o optimistiaeth ymhlith pobl ifanc bod y cwricwlwm newydd yn ceisio adlewyrchu barn a phrofiadau plant a phobl ifanc, yn achos pobl ifanc hŷn mae teimlad o rwystredigaeth na fyddan nhw'n elwa o'r cyfle hwn i ddysgu.

[95] https://www.niccy.org/media/4139/niccy-youth-panel-review-of-education-report.pdf

***…mae'n dda clywed am y cwricwlwm newydd, ond mae'n anodd peidio â theimlo ein bod ni'n cael ein gadael ar ôl pan fydd e ddim yn effeithio ar ein grwpiau blwyddyn ni.***

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Mae cydraddoldeb a chynhwysedd ym myd addysg yn cael ei godi gan blant a phobl ifanc, gan geisio mwy o gynrychiolaeth i amrywiaeth mewn lleoliadau addysg a'r cwricwlwm. Mae'r Cwricwlwm newydd yng Nghymru wedi gwneud addysgu hanes pobl ddu yn orfodol mewn ysgolion.

***Angen bod yn fwy cynhwysol – mae diffyg amrywiaeth yn y cwricwlwm a'r staff – dim cefnogaeth i bobl o wahanol ddiwylliannau ym myd addysg.***

Person Ifanc, Cymru

Yng Ngogledd Iwerddon, ar sail gwaith Panel Ieuenctid y Comisiynydd, a'r gwaith ymgysylltu buon nhw'n ei wneud wrth baratoi eu hadroddiad a'u hargymhellion i'r Adolygiad Addysg Annibynnol, roedd yn amlwg bod awydd i sicrhau newid yn eu system addysg. Dyma oedd casgliad y Panel Ieuenctid yn eu hadroddiad: [96]

***Rydyn ni'n rhagweld system addysg o'r safon uchaf, sy'n paratoi plant a phobl ifanc yn ddigonol ar gyfer eu dyfodol, sy'n cael ei defnyddio fel adnodd effeithiol i ddatgymalu rhaniadau'r sectau sydd wedi'u gwreiddio mor ddwfn yn ein cymdeithas, un sy'n galluogi ac yn cefnogi pobl ifanc mewn heriau yn eu bywydau, ac un sy'n addysgu pob person ifanc â'r safonau addysg gorau, heb wahaniaethu na chreu rhwystrau ar sail dosbarth cymdeithasol, cefndir crefyddol na hunaniaeth ddiwylliannol.***

**Addysg Hawliau Plant**

Gwaetha'r modd, ymhlith y boblogaeth plant a phobl ifanc, nid oes lefel uchel o ymwybyddiaeth o CCUHP.

[96] https://www.niccy.org/media/4139/niccy-youth-panel-review-of-education-report.pdf

Mae adroddiad Gwladwriaeth y Deyrnas Unedig yn datgelu bod 30% o bobl ifanc yn ymwybodol o CCUHP ac yn gwybod beth roedd hynny'n ei olygu, ac roedd 26% arall wedi clywed amdano. Ond er bod ffigwr cyffredinol o 56% o bobl ifanc wedi clywed am CCUHP, roedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod bod angen cymryd camau pellach i gynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP.

Cafodd dysgwyr yn yr Alban gyfle i leisio barn ar ymgynghoriad cyhoeddus ar agweddau ar ddiwygio addysg. Hwyluswyd ymgyngoriadau gyda phlant gan Senedd y Plant, Senedd Ieuenctid yr Alban a Together (Cymdeithas Hawliau Plant yr Alban). Er bod mwyafrif (mwy na 50%, ond llai na 75%) o'r plant oed cynradd yn dweud bod eu haddysg wedi'u helpu i ddatblygu parch at hawliau dynol a gwahanol fathau o ryddid, roedd ymatebion y plant oed uwchradd yn fwy problematig.[97]

***Rydyn ni'n dysgu am hawliau yn y dosbarth.***
***Rydyn ni'n dangos tipyn o barch i'n gilydd yn ein hysgol ni.***

Person Ifanc, yr Alban

Roedd rhai o'r farn nad oedd digon o ddyfnder i'r dysgu am hawliau dynol a mathau o ryddid, ac nad oedd o reidrwydd yn cyd-fynd â phrofiad o hawliau a mathau o ryddid mewn lleoliadau addysg; mewn geiriau eraill, ni theimlir bod hawliau plant unigol yn cael eu parchu na'u diogelu'n gyson.

***Rydyn ni'n cael ein dysgu amdanyn nhw, ond gallai'r gweithredu yn eu cylch fod yn well.***

Person Ifanc, yr Alban

Bydd y cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno'n raddol i fyd addysg o fis Medi 2022. Fel rhan o'r cwricwlwm newydd i Gymru, bydd gofyn bod plant, staff a llywodraethwyr yn dysgu am CCUHP a CCUHPA. Mae pobl ifanc wedi mynegi barn o blaid camau gweithredu Llywodraeth Cymru, gan ategu'r angen am gynnwys hawliau yn y cwricwlwm.

***Dylid sefydlu rhwydwaith o baneli hawliau yng Nghymru, o bosib ym mhob ysgol/sefydliad addysg, er mwyn rhoi neges gref ar led, a hysbysu plant am eu hawliau.***

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

[97] https://www.childrensparliament.org.uk/education-reform/

***Gwneud e'n rhan o'r cwricwlwm o'r ysgol gynradd ymlaen er mwyn dechrau dysgu am hawliau yn ifanc.***

Aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc CPC, Cymru

Bu'r bobl ifanc yn myfyrio bod addysg ac ymwybyddiaeth o CCUHP mewn lleoliadau addysg yn aml heb gael blaenoriaeth yn ystod y pandemig, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar bynciau oedd yn rhan o'r cwricwlwm.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Strategaeth Plant a Phobl Ifanc 2020-2030 (CYPS) yn offeryn hanfodol wrth gyflawni hawliau plant yn yr awdurdodaeth hon. Mae wedi amlygu Erthygl 4 o CCUHP sy'n gofyn bod y Llywodraeth yn cyflawni'r holl fesurau deddfwriaethol, gweinyddol ac eraill priodol i roi hawliau plant ar waith, gan nodi mai'r Strategaeth yw cynllun Gogledd Iwerddon ar gyfer cyflawni gwell llesiant i blant a phobl ifanc, a'i bod wedi'i gwreiddio yn CCUHP.[98]

O ran lefelau ymwybyddiaeth o CCUHP, yn arolygon diweddar Young Life and Times (YLT) a Kids Life and Times (KLT) yn 2020/21, holwyd pobl ifanc, 'Ydych chi wedi clywed am CCUHP?'. Mae'r arolwg YLT, sy'n targedu pobl ifanc 16 oed, yn amlygu mai 33% yn unig o bobl ifanc oedd wedi clywed am CCUHP.[99] Mae arolwg KLT, oedd yn targedu disgyblion P7, yn llawer gwaeth, gan mai 14% yn unig o'r disgyblion oedd wedi clywed am CCUHP.[100]

Roedd cyflwyniad Panel Ieuenctid NICCY i Banel yr Adolygiad Addysg Annibynnol (2022) yn adlewyrchu un o sylwadau terfynol Pwyllgor y CU yn 2016.[101]

***Gan adlewyrchu un o sylwadau terfynol Pwyllgor y CU yn 2016, rydyn ni'n argymell y dylai addysg hawliau plant ddod yn orfodol cyn gynted â phosib.***

Panel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

**Ataliaeth, gwaharddiadau ac ynysu**

Mae cyfraddau gwahardd o'r ysgol yn yr Alban yn sylweddol uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (20% isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban (SIMD)), o gymharu â'r

[98] final-execuitve-children-and-young-people's-strategy-2020-2030 (education-ni.gov.uk): Tud 9 a 10
[99] Young Life and Times Survey 2020-21
[100] Kids' Life and Times 2020-21
[101] https://www.niccy.org/media/4139/niccy-youth-panel-review-of-education-report.pdf

ardaloedd lleiaf difreintiedig (20% uchaf yr SIMD). Mae cyfradd y gwaharddiadau fesul 1000 o ddisgyblion yn 35.4% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, o gymharu ag 8.2% yn unig yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae plant a phobl ifanc yn teimlo bod yr ymatebion i'w hymddygiad yn aml yn anghymesur, ac nad yw gwaharddiadau, yn y pen draw, yn helpu pobl ifanc.[102]

***Mae fy atal rhag mynd i'r ysgol yn gwneud i mi fod eisiau mynd yn llai fyth.***

Person Ifanc, yr Alban

Yng Ngogledd Iwerddon, nododd adroddiad 'Neither Seen Nor Heard' NICCY enghreifftiau o ddefnydd amhriodol o ataliaeth a gosod o'r neilltu.[103]

***Weles i staff yr ysgol yn dala fe lawr bron bob dydd... Roedd yn cael ei gloi mewn stafell yn yr ysgol.***

Sibling person ifanc a brofodd ataliaeth a gosod o'r neilltu mewn ysgol brif ffrwd, Gogledd Iwerddon

Mae'r adroddiad Blociau Adeiladu a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn amlygu pryderon ynghylch nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a roddwyd i blant cyfnod sylfaen. Mae gwaith achosion a dderbyniwyd gan swyddfa'r Comisiynydd yn dangos achosion lle profodd plant oed Cyfnod Sylfaen waharddiadau anghyfreithlon (neu 'answyddogol'), ynghyd ag enghreifftiau o blant yn cael eu dysgu'n ynysig neu ar amserlen gryn dipyn yn llai.[104]

**Chwarae a hamdden**

Ar ôl heriau'r pandemig, mae plant a phobl ifanc wedi dweud eu bod am ddychwelyd i'r chwarae maen nhw'n ei fwynhau.[105]

***Chwarae llawn dychymyg a chwarae o gwmpas gyda fy ffrindiau – y parc/yr ysgol/y traeth/y goedwig gyda ffyn a phethau fel na.***

[102] https://www.gov.scot/publications/school-exclusion-statistics/ https://includem.org/wp-content/uploads/2021/08/The-School-Experience-of-Young-People-Pre-and-During-Covid-19-Report-SPREAD-1.pdf
[103] https://www.niccy.org/media/4026/niccy-restraint-and-seclusion-main-report-final-16-dec-21.pdf
[104] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/12/Building-Blocks-Report_E.pdf
[105] https://www.playscotland.org/resources/print/CHILDREN AND YOUNG PEOPLE-Play-Strategy-Consultation-2021.pdf?plsctml_id=20946

Person Ifanc, yr Alban

Mae chwarae yn aruthrol bwysig i blant a phobl ifanc. Roedd plant ag anghenion cefnogi ychwanegol am weld gwelliant sylweddol yn y chwarae awyr agored i ddiwallu eu hanghenion.

> ***Gofalwch fod mwy o leoedd ar gyfer plant anghenion ychwanegol, os gwelwch yn dda. Mae'n neges fawr bod parciau awyr agored wedi ailagor yn haf 2020, ond mae'n drist bod y plant anabl wedi cael eu hanghofio.***

Person Ifanc, yr Alban

Mae gweithgareddau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles wedi cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i hybu chwarae a chyfleoedd i gymdeithasu, wrth i ni ddod allan o'r pandemig. Bu plant a phobl ifanc yn mwynhau'r cyfle i gael hwyl a chymdeithasu, ac roedden nhw'n cefnogi hygyrchedd ariannol y gweithgareddau, er eu bod hefyd yn amlygu'r prinder arferol o ddarpariaeth i blant a phobl ifanc.[106]

> ***(Byddwn i) yn llythrennol yn styc yn y tŷ. Does dim byd i bobl fy oed i. Dydw i ddim yn gweithio, felly byddwn i'n cael trafferth talu £5 am weithgareddau, alla i ddim fforddio gwneud hynny.***

Person Ifanc, Adroddiad Gwerthuso'r Haf o Hwyl, Cymru

> ***Fe wnaeth [yr Haf o Hwyl] ddysgu sgiliau newydd i fi y galla i eu defnyddio yn nes ymlaen mewn bywyd, ac roedd yn llawer o hwyl!***

Person Ifanc, Adroddiad Gwerthuso'r Haf o Hwyl, Cymru

Nodwyd y dylid cymryd camau pellach i gynyddu cwmpas darpariaeth yn y dyfodol a sicrhau bod gweithgareddau'n gynhwysol. Mae'r argymhelliad hwn yn adlewyrchu arsylwadau ehangach a sylwadau gan bobl ifanc ynghylch argaeledd mannau hygyrch i blant a phobl ifanc anabl chwarae. Pan ofynnwyd beth fyddai'n gwneud Cymru'n lle gwell i blant a phobl ifanc, un ymateb oedd:

[106] Gwerthusiad o'r Haf o Hwyl (crynodeb) | LLYW.CYMRU

*Hygyrchedd mewn parciau i bob person ifanc, fel person ifanc anabl dyw e ddim yn deg mod i'n methu chwarae.*

Person Ifanc Anabl, Cymru

## 9. Mesurau amddiffyniad arbennig

**Plant sy'n ceisio lloches, yn ffoaduriaid ac yn ymfudo**
Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cynrychioli rhai o bobl fwyaf bregus ein cymdeithas, ac mae'n hanfodol eu bod yn derbyn y cymorth a'r gefnogaeth sy'n ofynnol i'w helpu i fyw bywyd normal mewn cyfnod heriol. Mae adroddiad Gwladwriaeth y Deyrnas Unedig yn nodi bod y llywodraeth yn ymroddedig i sicrhau bod lles pennaf pob plentyn yn brif ystyriaeth mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw.

Dywedodd ceiswyr lloches a ffoaduriaid ifanc heb eu hebrwng yn yr Alban fod angen cefnogaeth arnyn nhw gan y wladwriaeth sy'n wir yn gwrando ac yn darparu ar gyfer eu hanghenion. Maen nhw'n awgrymu y dylai'r hyfforddiant i weithwyr fod yn gyson o ran lefel y gofal a dealltwriaeth o'u hanghenion, gan y bobl maen nhw'n dibynnu arnyn nhw am gefnogaeth. Roedden nhw eisiau mwy o barodrwydd i ymateb i anghenion brys a chanlyniadau ar gyfer ymddygiad camdriniol, maen nhw angen gwybod at bwy gallan nhw droi mewn awdurdod lleol os bydd ganddyn nhw gwynion ynghylch eu triniaeth gan weithwyr cymdeithasol, a gwybodaeth am eu hawliau. Roedden nhw'n teimlo bod angen mwy o help arnyn nhw yn pontio i fywyd annibynnol, ac yn sicrhau'r gorffwys a'r hamdden angenrheidiol.[107]

*Meddyliwch am ffoaduriaid fel pobl arferol, sydd angen gorffwys neu deithio neu fynd ar dripiau. Meddyliwch am anghenion amser hamdden person yn y sefyllfa yma. Fe ges i fy ngeni a thyfu i fyny ym myd natur, a does neb yn meddwl pa mor anodd yw hi i rywun fel fi dreulio 9 mis mewndinas yn llawn llygredd heb fyd natur.*

Ceisiwr Lloches Ifanc, yr Alban

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd rhai ffoaduriaid ifanc yn ymwybodol bod y bobl leol eisoes wedi'u stereoteipio cyn iddyn nhw gyrraedd yr ysgol, ac o ganlyniad roedden nhw'n

[107] COVID-19 for Children and Young People: Learning from Unaccompanied Asylum Seekers and Refugees - A Place in Childhood

teimlo'n bryderus ac yn ofnus am yr ymateb iddyn nhw. Roedd un ffoadur yn argymell bod yr ysgol yn dysgu mwy i'r bobl ifanc leol am ffoaduriaid, er mwyn helpu i ddileu'r stigma a'r labelu o'u hamgylch.[108]

> ***Dydyn ni ddim fel mae'r ffilmiau'n dangos.***

Ffoadur Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

Trafododd rhai pobl ifanc yr angen am fwy o atebion ymarferol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches wrth gael mynediad i'r cwricwlwm. Mae llawer o ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc yn profi anawsterau wrth ddeall y cwricwlwm a chwestiynau yn eu harholiadau. Roedden nhw'n teimlo y dylai eu gwaith ysgol a'u harholiadau gael eu cyfieithu i'w hiaith eu hunain, neu fel arall y dylai fod ganddyn nhw ysgrifennydd i'w cynorthwyo.

> ***Mae fy nysgu i flwyddyn y tu ôl i ddisgyblion eraill yr un oed yn fy mlwyddyn ysgol, achos mae rhaid i fi addasu i ddysgu iaith newydd.***

Ffoadur Ifanc, EAYS, Gogledd Iwerddon

Yn yr un modd, gofynnodd ceiswyr lloches a ffoaduriaid ifanc yng Nghymru am fwy o fynediad at gyfieithu electronig. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at y ffaith nad oedd hawl i gael ffôn yn yr ysgol, oedd yn golygu bod cyfieithu yng nghyswllt Saesneg fel iaith ychwanegol yn heriol, ac yn effeithio ar eu haddysg.

Roedd pobl ifanc eraill yn ymwybodol o'r gefnogaeth mae ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches ei hangen.[109]

> ***I fi mae'r cyfan yn ymwneud â chefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Fel cymdeithas mae angen i ni gydnabod a chroesawu anghenion a diwylliannau amrywiol; mwy o gefnogaeth o ran rhwystrau ieithyddol; mwy o gefnogaeth o ran cysylltu â rhwydweithiau cymdeithasol, clybiau chwaraeon, etc.***

Person Ifanc, NIYF, Gogledd Iwerddon

108 Ymgynghoriad ar y Strategaeth Integreiddio Ffoaduriaid, EAYS, 2022
109 Our Voices: Looking Beyond Borders, Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon, 2022

Mae ffoaduriaid o Wcráin wedi cael croeso cadarnhaol yng Nghymru, a sefydlwyd Canolfannau Croesawu i gefnogi plant a'u teuluoedd sy'n cyrraedd. Mae'n bwysig bod barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried wrth i wasanaethau cefnogi gael eu datblygu ac i anghenion godi. Mae pryderon yn parhau ynghylch diogelu, risg ecsbloetio a masnachu pobl, ac opsiynau llety symud ymlaen, y mae'n rhaid parhau i roi sylw iddyn nhw.
Yn fwy cyffredinol, mae Cynllun Cenedl Noddfa ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (2019)[110] yn cyflwyno ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o ran gwella'r canlyniadau i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yng Nghymru.

**Cyfiawnder yr Ifanc**
Mae plant a phobl ifanc yn y system Cyfiawnder Ieuenctid yn grŵp arbennig o agored i niwed, y mae eu barn a'u hanghenion yn aml yn cael eu diystyru.

Mae adroddiad Gwladwriaeth y Deyrnas Unedig yn dweud bod y Parti Gwladol yn ymdrechu i amddiffyn pob plentyn, pa sefyllfa bynnag maen nhw'n cael eu hunain ynddi, ac y dylai'r ddalfa gael ei defnyddio dim ond pan fydd popeth arall wedi methu yn achos plant. Mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn cynghori na ddylai isafswm oed cyfrifoldeb troseddol sydd o dan 14 fod yn dderbyniol yn rhyngwladol.

Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig gynlluniau i godi isafswm oed cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru, ac mae o'r farn bod plant 10 oed yn gallu gwahaniaethu rhwng ymddygiad gwael a thramgwyddo difrifol. Ym mis Rhagfyr 2021, cododd yr Alban oed cyfrifoldeb troseddol i 12, ac mae Gweinidog Cyfiawnder presennol Gogledd Iwerddon yn cefnogi codi oed cyfrifoldeb troseddol o 10.

Mynegodd rhai pobl ifanc fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ganlyniad uniongyrchol i dlodi, ac fe wnaethon nhw esbonio bod pobl oedd yn byw mewn tlodi yn fwy tebygol o droi at droseddu a dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol ieuenctid.

Yn ystod Covid, soniodd pobl ifanc wrth NICCY am eu pryder ynghylch methu mynd i wrandawiadau llys.[111]

> ***Mae un peth hoffwn i ddweud, mae'r staff yn mynd i'r llys ar ein rhan, rwy'n credu dylen ni gael mynd i'n hachos llys ein hunain, fel bod ni'n gwybod beth sy'n digwydd ac yn clywed hynny. Achos o ran beth rydyn ni'n gwybod, gallai'r staff fod yn dweud***

[110] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/nation-of-sanctuary-refugee-and-asylum-seeker-plan_0.pdf
[111] A NEW AND BETTER NORMAL Children and Young People's Experiences of the Covid-19 Pandemic

***rhywbeth gwahanol i beth mae'r barnwr yn dweud, felly byddai'n well gen i fod yno.***

Person Ifanc yn System Cyfiawnder yr Ifanc, Gogledd Iwerddon

Bu pobl ifanc hefyd yn trafod effaith Covid ar ymweliadau â Chanolfan Cyfiawnder yr Ifanc.

***Effeithiodd Covid ar fy iechyd meddwl, yn ogystal â lleihau fy nghyswllt â'm siblingiaid. Doedd dim dealltwriaeth o'm diwylliant yng nghyd-destun cyswllt.***

Person Ifanc yn System Cyfiawnder yr Ifanc, Gogledd Iwerddon

Mae profiadau o 'stopio a chwilio' yn dylanwadu ar farn llawer o bobl ifanc a'u cyfoedion, ac yn cael effaith yn sgîl hynny ar eu hyder yn yr heddlu, os byddan nhw'n dioddef trosedd yn eu herbyn yn y dyfodol.

Mae pobl ifanc yn codi mater 'stopio a chwilio' yn rheolaidd ac yn teimlo eu bod yn cael eu targedu a'u herlid o ganlyniad i ddefnyddio pwerau 'stopio a chwilio'. Mae pobl ifanc hefyd yn credu bod pwerau 'stopio a chwilio' yn cael eu defnyddio yn eu herbyn nhw yn llawer amlach nag yn erbyn oedolion. Maen nhw'n teimlo bod eu hoed, sut roedden nhw'n edrych, eu lleoliad a hanes eu teulu yn golygu bod yr heddlu yn eu targedu'n benodol ac yn eu gwneud yn fwganod. Maen nhw'n credu bod hynny'n dod i'r amlwg ar ffurf sylw ychwanegol, defnydd gormodol o 'stopio a chwilio', bod dan amheuaeth yn barhaus, swyddogion yr heddlu'n edrych lawr arnyn nhw, cael eu gorfodi i adael mannau cyhoeddus, ac mewn llawer o achosion cael eu trin yn anfoesgar.[112]

***Maen nhw'n stopio a chwilio fi o hyd.***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

***Maen nhw'n defnyddio cyfraith brawychiaeth i stopio a chwilio ni, does dim hawl ganddyn nhw i wneud hynny, ond achos bod ni'n ifanc, maen nhw'n llwyddo i wneud.***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

***Dydyn nhw ddim yn rhoi rheswm am stopio chi,***

[112] Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Gynllun Plismona Drafft Gogledd Iwerddon 2020-2025, Include Youth (2020)

***maen nhw jyst yn dweud mai cyffuriau neu arfau sydd dan sylw, ond dydyn nhw ddim yn rhoi rheswm go iawn.***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

***Rydw i wedi gofyn am slip stopio o’r blaen, ond fe wnaethon nhw chwerthin am fy mhen a dweud bod dim rhai i gael.***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

Mewn ymateb i’r cwestiwn, ‘ydych chi’n meddwl dylai’r system cyfiawnder troseddol gael ei newid i blant?’, dywedodd nifer bach o bobl ifanc oedd â phrofiad o ofal a chyfiawnder o Youth Justice Voices yn yr Alban y dylai plant gael eu gweld fel plant, ac nid oedolion, p’un a yw hynny yn ystod prosesau cyfreithiol neu wrth gael eu hamddifadu o’u rhyddid. Dylai pobl ifanc gael eu trin fel rhai sydd o dan oed, ac nid eu barnu na’u stigmateiddio mewn ffordd sy’n golygu eu bod yn cael eu trin yn wahanol.[113]

***Dydyn nhw ddim yn edrych ar eich oed, maen nhw’n edrych ar pam rydych chi yno.***

Person Ifanc, yr Alban

Fe sonion nhw am fod â pherson cyswllt a fyddai’n gallu eu cefnogi drwy’r broses gyfan, fel eu bod nhw’n deall popeth.

***Dylai fod rhywun i’ch cefnogi chi drwy’r broses.***

Person Ifanc, yr Alban

Mewn ymateb i’r cwestiwn ‘gofal diogel neu sefydliad troseddwyr ifanc (YOI) i rai o dan 18 oed?’, dywedodd y bobl ifanc ei bod yn fwy tebygol y bydden nhw’n cael eu trin fel plentyn neu berson ifanc mewn gofal diogel, yn hytrach nag mewn amgylchedd YOI. Fel y nododd Youth Justice Voices, *“Dylai pob dedfryd/remand fynd i ofal diogel. Mae rhoi unrhyw un o dan 18 oed mewn YOI yn anghywir. Does gan YOI ddim y cyfleusterau i ofalu am anghenion iechyd meddwl plant. Maen nhw’n achosi trawma – mae sut maen nhw’n edrych, yn swnio, a’r mecanwaith sydd ynghlwm wrth fynd yno i gyd yn peri trawma, a heb fod yn addas i blant o gwbl.”*

---

113 https://www.staf.scot/blog/youth-justice-voices-response-to-childrens-care-and-justice-bill

Mewn lleoliadau remand ychydig iawn o ofal a chymorth ôl-ofal sydd ar gael yn ystod y cyfnod, ac mae hynny'n arwain at aildroseddu.[114]

> ***Nôl i'r cychwyn cyntaf, sy'n arwain at aildroseddu... dim arian, dim byd, ac yna nôl i ble roeddwn i'n arfer bod.***

Person Ifanc, yr Alban

Ni ddylai lleoliadau dros ffiniau ddigwydd, ac ni ddylen ni fod yn lleoli plant o'r Alban gannoedd o filltiroedd oddi wrth eu teulu, eu cymuned a'u ffrindiau chwaith.

> ***Fydde fe ddim yn gyfarwydd iddyn nhw, ac fe ddylen nhw gael eu lletya lle maen nhw'n byw neu gerllaw.***

Person Ifanc, yr Alban

Roedd rhai pobl ifanc mewn Canolfan Gofal Diogel yng Ngogledd Iwerddon o'r farn na ddylai'r Ganolfan Gofal Diogel gael ei defnyddio ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu hystyried ar gyfer mechnïaeth.[115]

> ***Dydw i ddim yn cytuno â chael fy nghadw yn y ganolfan oherwydd bod dim cyfeiriad mechnïaeth. Digwyddodd hynny i fi ac fe ges i fy nal am wythnosau oherwydd bod gen i ddim cyfeiriad mechnïaeth. A doedd dim cyhuddiadau yn fy erbyn oherwydd bod y cyfan wedi cael ei dynnu'n ôl. Rwy'n credu bod angen i'r Ymddiriedolaeth (Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a'r gweithwyr cymdeithasol wella'u gallu i drefnu llety.***

Gwryw Ifanc, Canolfan Gofal Diogel, Gogledd Iwerddon

Mae ystod eang o waith cadarnhaol yn digwydd ar draws Sectorau Cyfiawnder Ieuenctid a Phlismona Cymru, er mwyn cynnwys plant yn well yn sut caiff gwasanaethau eu cyflwyno, a gweithio mewn modd sy'n cael ei lywio gan hawliau er mwyn gwella'r canlyniadau i blant. Mae ymrwymiad cynyddol gan heddluoedd i gynnwys plant wrth ddatblygu gwasanaethau a sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi ynghylch hawliau plant. Rhai enghreifftiau yw timau penodol ar gyfer hawliau plant, paneli pobl ifanc, cynlluniau

---

[114] https://www.staf.scot/blog/youth-justice-voices-response-to-childrens-care-and-justice-bill

[115] https://www.voypic.org/wp-content/uploads/2021/01/ESTABLISHMENT-OF-A-REGIONAL-CARE-AND-JUSTICE-CAMPUS-VOYPIC-RESPONSE.pdf

cyfranogiad ac adnoddau a ddatblygir ar y cyd â phobl ifanc. Fodd bynnag, mae llawer o blant yn dal heb brofi eu hawliau yn y lleoliadau hyn.
Amlygodd plant yr angen am lety diogel a phriodol, yn unol â'u hawliau.

***"Ddylai plant ddim cael eu rhoi yng nghelloedd yr heddlu, sy'n aml yn frwnt, yn drewi a heb fod yn lân."***

Person Ifanc yn System Cyfiawnder yr Ifanc, Cymru

Mae Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yn darparu llwybr ar gyfer diwygio'r dull o ymdrin â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Mae'n rhaid ystyried gorgynrychiolaeth plant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, rhai sydd â phrofiad o ofal, a rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar hyd y broses o gyflwyno cynlluniau.

Mae plant a phobl ifanc wedi amlygu bod angen gwneud mwy i rannu gwybodaeth gyda nhw am gynnydd y gwaith yma.

**Grwpiau Parafilwrol/Gangiau Troseddu**
Mae adroddiad Gwladwriaeth y Deyrnas Unedig yn dweud bod amddiffyn plant rhag ymosodiadau parafilwrol a recriwtio yn flaenoriaeth yn y Deyrnas Unedig. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Rhaglen Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon 'Tackling Paramilitary Activity, Criminality, and Organised Crime' yn darparu gwasanaeth uniongyrchol i bobl ifanc trwy brosiectau amlasiantaeth i gynyddu'r amddiffyniad iddynt yn erbyn risg ymwneud â grwpiau parafilwrol a chael niwed yn sgîl hynny.

Fodd bynnag, yng Ngogledd Iwerddon, roedd rhai pobl ifanc yn meddwl bod pobl ifanc oedd yn byw mewn tlodi yn fwy tebygol o droi at droseddu a chael eu hunain yn y system cyfiawnder troseddol ieuenctid. Roedd un grŵp hefyd yn cydnabod bod y bobl ifanc hyn yn fwy tebygol o gael eu targedu gan grwpiau parafilwrol a gangiau eraill, er mwyn cael mynediad at arian neu statws yn eu cymuned. Roedd gweithiwr ieuenctid yn ategu hyn, ac yn nodi bod, "*Grwpiau parafilwrol yn targedu'r bobl ifanc hyn, sy'n agored i niwed, ac yn eu hecsbloetio at eu dibenion eu hunain. Dydyn nhw'n poeni dim am eu cofnod troseddol, achos bod mwy ar gael bob amser i gymryd eu lle.*"[116]

[116] Adroddiad y Gwasanaeth Ieuenctid ar yr Ymgysylltiad â Phobl Ifanc ar gyfer Strategaeth Gwrthdlodi yr Adran Gymunedau (Mai 2021)

Mae presenoldeb a bygythiad grwpiau parafilwrol wedi cael ei amlygu yn ystod ymgyngoriadau niferus yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda phobl ifanc ar ystod o faterion, gan gynnwys diogelu, plismona, y system ofal, etc.[117]

***Mae grwpiau parafilwrol yn gwybod pwy ydych chi – mae yna rai ardaloedd sydd ddim yn saff i fi, rhai stadau'n agos at ble rwy'n byw.***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

***Mae gormod o bobl yn gaeth i'r gorffennol ac mae'r rhai hŷn yn pasio fe mlaen i'r rhai iau, ac mae'n mynd ymlaen. Y cyfan mae'n gwneud yw cadw nhw (paras) mewn pŵer.***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

***Mae plant yn lladd eu hunain oherwydd bod grwpiau parafilwrol sy'n gwrthod cydymffurfio yn ceisio'n gorfodi nhw i wneud pethau dydyn nhw ddim eisiau gwneud.***

Person Ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

---

[117] Ymateb i Fframwaith Canlyniadau Drafft y Rhaglen Lywodraethu, Include Youth (Mawrth 2021)

## Atodiad 1: Trosolwg o'r Ymgysylltu

**Gogledd Iwerddon:**
Daeth meddyliau, syniadau a barn plant a phobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon o nifer o ffynonellau, gan gynnwys gwaith NICCY ei hun yn Covid; Restraint and Seclusion; y Review of Education a'r Health Waiting lists.

Wrth gyflawni'r gwaith hwn, ac er mwyn sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau'n cael eu derbyn, buon ni'n ymgysylltu â'r rhai mwyaf agored i niwed, neu bu staff sefydliadau eraill yn hwyluso'r ymgysylltu hwnnw ar ein rhan. Dosbarthwyd arolwg hefyd ar gyfer y rhai oedd yn barod i gyfranogi, ond yn methu dod i weithdy, er enghraifft y rhai o fewn system Cyfiawnder yr Ifanc (a hwyluswyd gan NIACRO (Cymdeithas Gogledd Iwerddon ar gyfer Gofal ac Ailsefydlu Troseddwyr)).

Daw gwybodaeth arall o adroddiadau a chyhoeddiadau cyfredol gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon, Include Youth, Fforwm Ieuenctid Cyngor Dinas Belfast, Arolwg Kids Life and Times (2,242 o blant oed cynradd 7 (10/11 oed)), Arolwg Young Life and Times (2,069 o bobl ifanc 16 oed), Cymorth i Fenywod, Prifysgol y Frenhines, Belfast, a Swyddfa'r Weithrediaeth.

Ar ben hynny, bu Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdodau Addysg (EAYS) hefyd yn darparu adborth o fwy nag ugain o achosion o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys chwe sesiwn yn ystod cyfnod COVID. Gydag aelodaeth o fwy nag 80 o bobl ifanc ar gyfartaledd, mae Panel Ieuenctid NICCY ei hun hefyd wedi parhau i gynghori'r Comisiynydd.

**Yr Alban:**
Daw barn a safbwyntiau'r plant a'r bobl ifanc yn yr adroddiad hwn o nifer o ffynonellau. Daw llawer o'r wybodaeth o ddau brosiect partneriaeth a gomisiynwyd ac a ariannwyd gan Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban. Er mwyn cefnogi awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban, bu'r Comisiynydd Plant, mewn partneriaeth â Senedd y Plant, Together (Cynghrair Hawliau Plant yr Alban) ac Arsyllfa Hawliau Dynol Plant yr Alban, yn cynnal astudiaeth achos yng Nghyngor Dwyrain Lothian i ddatblygu dealltwriaeth o sut gall plant gael eu cynnwys mewn prosesau CRIA a CRIE. Bu'r Comisiynydd Plant hefyd yn cefnogi A Place in Childhood (APiC) yn ystod ail a thrydydd cyfnod eu gwaith: #ScotYouthandCOVID: A Longitudinal Virtual Participatory Action Research Project.

Daw gwybodaeth arall o waith a wnaed gan sefydliadau megis Aberlour, Senedd y Plant, Includem, LGBT Youth Scotland, Play Scotland, See Me Scotland, Scottish Throughcare

and Aftercare Forum (Staff), Together (Cynghrair Hawliau Plant yr Alban) a Who Cares? Scotland.

Mae'r Comisiynydd Plant yn cynnwys ei Grwpiau Ymgynghorwyr Ifanc ei hun yng ngwaith y swyddfa, gan gynnwys wrth lywodraethu, mewn gwaith polisi, cyfathrebu ac wrth helpu i lywio cyfeiriad strategol y swyddfa i'r dyfodol.

Ers gallu dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb mae'r Comisiynydd Plant a'i dîm wedi manteisio ar y cyfle i gwrdd â mwy na 1100 o blant a phobl ifanc ar draws yr Alban er mwyn cynnwys eu barn a'u safbwyntiau yn yr adroddiad hwn, a llywio gwaith ehangach y swyddfa.

**Cymru**:
Casglwyd barn a phrofiadau'r plant a'r bobl ifanc yn yr adroddiad hwn o ystod o ffynonellau. Mae hyn yn cynnwys nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru. Bu adroddiad Coronafeirws a Fi CPC (2020) yn ymgysylltu â mwy na 23,700 o blant a phobl ifanc 3-18 oed ar bwnc pandemig Covid-19 a'i effeithiau ar blant a phobl ifanc. Yn 2021, bu arolwg Coronafeirws a Fi ychwanegol yn ymgysylltu ag 20,000 o blant a phobl ifanc rhwng 3 ac 18 oed. Cafodd y canfyddiadau cychwynnol ar dlodi eu cynnwys o arolwg cenedlaethol a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn 2022, a fu'n ymgysylltu â mwy na 7500 o blant a phobl ifanc. Cafodd adroddiadau ar ddull gweithredu 'Dim Drws Anghywir' a 'Blociau Adeiladu: bod yn gynhwysol yn y Cyfnod Sylfaen' hefyd eu hystyried o fewn yr adroddiad hwn.

Ar ben hynny, mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu barn a safbwyntiau plant a phobl ifanc, a fynegwyd trwy ymgysylltiad uniongyrchol â swyddfa'r Comisiynydd. Roedd yr ymgysylltiad yma'n cynnwys ymweliadau ysgol a chymuned gyda grwpiau amrywiol o blant a phobl ifanc, a sesiynau panel ymgynghorol pobl ifanc gyda 62 o bobl ifanc dros y cyfnod o ddwy flynedd. Ar ben hyn, hwyluswyd grŵp ffocws bach o 6 pherson ifanc i sicrhau bod barn person ifanc yn cael ei hystyried wrth lunio'r adroddiad hwn.

Daw gwybodaeth arall o adroddiadau ac adnoddau a gyhoeddwyd gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys Plant yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Estyn a Llywodraeth Cymru.

NORTHERN IRELAND COMMISSIONER FOR CHILDREN AND YOUNG PEOPLE
TWITTER: @NICHILDCOM
VISIT: NICCY.ORG

CHILDREN AND YOUNG PEOPLE'S COMMISSIONER SCOTLAND
TWITTER: @CYPCS
VISIT: CYPCS.ORG.UK

COMISIYNYDD PLANT CYMRU
TWITTER: @COMPLANTCYMRU
EWCH I: COMPLANTCYMRU.ORG.UK

NICCY
PROMOTING THE RIGHTS OF CHILDREN & YOUNG PEOPLE

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales